Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Elin Maher
Rhif myfyriwr: 2102793

I ba raddau y mae darpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer hwyrddyfodiaid ar lefel llywodraeth leol yn cydweddu ag amcanion ieithyddol a hyrwyddol llywodraeth ganol yng Nghymru? Golwg ar y De-ddwyrain.

Traethawd ar gyfer rhaglen
MA Astudiaethau Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd

Ionawr 30 2022
Yr Athrofa Addysg ar Dyniaethau

PRIFYSGOL CYMRU
Y Drindod Dewi Sant
UNIVERSITY OF WALES
Trinity Saint David

DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau mai ffrwyth fy ymdrech unigol yw'r holl waith yma, a bod pob ffynhonnell wedi ei gydnabod.

Llofnod (Myfyriwr)

Dyddiad 31.1.2022

DATGANIAD

Rwy'n fodlon mai ffrwyth ymdrech y Myfyriwr yw'r gwaith yma.

Llofnod . (Darlithydd)

Dyddiad ..31-01-22.....

CYNNWYS

TUDALEN GYNNWYS		2
DIOLCHIADAU		3
CRYNODEB		4
TALFYRIADAU		5
PENNOD 1:	CYFLWYNIAD	6
PENNOD 2:	ADOLYGIAD LLENYDDOL	15
PENNOD 3:	ADOLYGIAD METHODOLEG	30
PENNOD 4:	CANLYNIADAU a THRAFODAETH	43
PENNOD 5:	CASGLIAD AC ARGYMHELLION	68
PENNOD 6:	CYFEIRIADAU	73

ATODIADAU

Atodiad 1 a 2 Holiaduron

DIOLCHIADAU

I’m cyfeillion o fewn y maes adfer iaith yng Nghymru a thu hwnt a fu ac sy’n parhau i’m hysbrydoli i sicrhau seiliau cadarn i’r Gymraeg ac ieithoedd bychain y byd i’n cenedlaethau nesaf. I’m tiwtor, Dr Hywel G Lewis am ei amynedd a’i anogaeth. I’m gŵr a’m plant, Aidan, Rhys, Ioan ac Efa am fod yn ddi-wraig a di-fam am gyfnodau hir wrth ymchwilio ac ysgrifennu ac i Gareth (dad), Annette (mam) a Dewi (llystad), Non (chwaer) a Dafydd (brawd) a’m hysgogodd ac a'm dysgodd, o oedran cynnar, am bwysigrwydd ac arwyddocâd adfer a throsglwyddo ein hiaith yn y teulu ac yn y gymuned. Mawr yw fy niolch a’m dyled.

CRYNODEB

> “Nod Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth Cymraeg 2050 yw sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn canol y ganrif (Llywodraeth Cymru 2017a). Mae’r ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn rhan allweddol o wireddu’r nod hwn, oherwydd ei bod yn cynyddu’r nifer o bwyntiau mynediad at y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog drwy gydol gyrfa addysgol y disgybl.” (Llywodraeth Cymru 2021)

Mae'r traethawd hir hwn yn edrych ar i ba raddau y mae darpariaeth addysg drochi hwyr i’r Gymraeg ar lefel llywodraeth leol, yn cydweddu ag amcanion ieithyddol a hyrwyddo llywodraeth ganol yng Nghymru. Gan ystyried y datblygiadau diweddar ym maes polisi iaith ac addysg Gymraeg yng Nghymru, edrychir ar arwyddocâd a pherthnasedd addysg drochi hwyr i’r unfed ganrif ar hugain gan holi ambell gwestiwn megis “Oes angen addysg drochi hwyr yng Nghymru o hyd neu a ddylai’r system addysg gefnogi addysgu’r Gymraeg o’r blynyddoedd cynnar yn unig?” ac “ a oes cysondeb rhwng y modd y mae gwahanol Awdurdodau Lleol yn mynd i’r afael â darparaieth drochi hwyr ? ” Edrychir ar beth yw diffuniad trochi ieithyddol hwyr, dechreuadau’r fethodoleg hon a sut y mae trochi ieithyddol hwyr wedi datblygu dros y blynyddoedd fel methodoleg i gaffael iaith. Adolygir y mathau gwahanol o drochi iaith sydd yn digwydd yn y byd ac yng Nghymru heddiw. Ffocysir ar Dde Ddwyrain Cymru’n benodol yn yr ymchwil ei hun a’r heriau sydd yn wynebu ardal sydd â’r siroedd o ddwysedd siaradwyr Cymraeg cymunedol isaf yng Nghymru a phriodoldeb a chysondeb y ddarpariaeth drochi hwyr yn yr ardal hon. Ymchwilir i brofiadau rhieni a’r gweithlu wrth gynnal trosolwg o’r sefyllfa ar draws yr ardal, gan gyflwyno argymhellion mewn cyfnod o arwyddocâd cymdeithasol gyda Cofid-19 ac addysgol ar drothwy cychwyn gweithredu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg 2022-2023.

TALFYRDIADAU

AGC	Arolygaeth Gofal Cymru
CIY / WAL	Cymraeg fel Iaith Ychwanegol / Welsh as an Additional Language
CSCAu	Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg
SIY / EAL	Saesneg fel Iaith Ychwanegol/English as and Additional Language

PENNOD 1

Cyflwyniad

Gyda'r cylch newydd deng mlynedd o gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ar fin dod yn weithredol ym Medi 2022, a'r galw sydd ar awdurdodau lleol i gynyddu canran disgyblion Blwyddyn 2 mewn addysg Gymraeg o 23% yn 2021-2022 i 30% erbyn diwedd cyfnod y cynlluniau yn 2032, mae hwyluso mynediad y dysgwr i addysg Gymraeg yn ystyriaeth allweddol ac angen mecanwaith weithredu ystyrlon er mwyn sicrhau'r cynnydd arwyddocaol hwn.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg 5–15 oed, yn enwedig yn Ne-ddwyrain Cymru, yng Nghyfrifiad 2001, ond gyda'r twf yn gostwng 0.5% dros Gymru erbyn 2011. Yn ardal y De-ddwyrain, roedd Cyfrifiad 2001 yn nodi bod 35% o blant 5-15 oed yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg gyda chwymp bychan i 34% erbyn Cyfrifiad 2011. Er y *niferoedd* cynyddol, nid oedd y canrannau hyn yn cyfateb i niferoedd disgyblion mewn addysg Gymraeg ar y pryd ac, felly, roedd yn rhaid bod yn ofalus wrth eu dadansoddi. A oedd rhieni mewn ysgolion Saesneg yn cyfri eu plant yn siaradwyr Cymraeg? Efallai, ac er y gwyddom nad yw cyraeddiadau ieithyddol dysgwyr ysgolion cyfrwng-Saesneg o dan y system ail-iaith yn cyfateb i'r rhai mewn ysgolion Cymraeg ar y cyfan, rhaid hefyd oedd cymryd sylw o'r elfen gadarnhaol yn awydd y rhieni i ddweud bod eu plant yn medru'r Gymraeg a bod angen cymryd mantais o'r awydd hwn o fewn ein rhieni a'n gwarchodwyr ar draws Cymru i gydnabod eu gallu ieithyddol wrth ddatblygu cynlluniau'r dyfodol.

Y mae 384 o ysgolion cynradd Cymraeg, 12 ysgol ganol Gymraeg a 44 ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghymru heddiw yn ôl rhestr ysgolion mwyaf cyfredol Llywodraeth Cymru[1]. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae canran ysgolion Cymraeg felly o holl ysgolion Cymru fel a ganlyn o fewn y gwahanol gyfnodau addysgol:

Ysgolion Cynradd 31.5%

Ysgolion Canol 52.2%

Ysgolion Uwchradd 24.2%

Mae dewis addysg cyfrwng-Saesneg, felly, yn parhau i fod yn fwy cyffredin yng Nghymru. Ond onid yw'r Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru ac, yn yr un modd, oni ddylai addysg Gymraeg fod yn hygyrch i bob plentyn yng Nghymru yn ogystal?

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi'n glir bod addysg Gymraeg mewn lleoliad cyfrwng-Cymraeg yn cynnig y modd gorau i gaffael y Gymraeg yn llawn:

> *"Ein gweledigaeth yw galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn eu bywydau bob dydd. Mae Cymraeg 2050 yn nodi'n glir mai addysg drochi lawn yn y Gymraeg – hynny yw, addysg mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Cymraeg yn bennaf – yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o greu unigolion gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau pob dydd."* [2]

Mae addysg Gymraeg wedi datblygu ar hyd y blynyddoedd o ganlyniad i alw cynyddol ar ran rhieni ers sefydlu'r ysgol gynradd Gymraeg gyntaf yn 1939 yn Aberystwyth, sef ysgol breifat. O dipyn i beth, y mae newid arwyddocaol wedi digwydd dros y chwarter

[1] https://llyw.cymru/rhestr-gyfredol-o-ysgolion
[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf

canrif diwethaf wrth i fwy o rieni - heb y Gymraeg ar yr aelwyd, ddewis addysg Gymraeg i'w plant.

Y mae galwadau cymunedol cyson wedi dod i sicrhau twf addysg Gymraeg. Bu mudiadau pwyso megis Cymdeithas yr Iaith, Rhieni Dros Addysg Gymraeg a CYDAG yn flaellaw yn eu hymgyrch i weld addysg Gymraeg yn cryfhau ar hyd a lled Cymru (C.H. Williams, 2014).

Gosododd Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i greu cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn 2013, gan rhoi'r cyfrifoldeb arnynt hefyd i asesu'r galw am addysg Gymraeg.[3] Ond, diddymwyd yr angen i fesur y galw am addysg Gymraeg gyda'r CSCAu newydd yn 2019 . Dyma alwad clir gan Lywodraeth Cymru i newid ysbryd y cynlluniau newydd o fod yn *ymateb* i'r galw, i fod yn *symbylu'*r galw, a hynny, o bosib, yw'r cyfrifoldeb a'r cysyniad mwyaf heriol i nifer o awdurdodau lleol ar draws Cymru.

Nodai'r Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (2021) yn glir yr awydd i gynyddu'r pwyntiau mynediad i addysg Gymraeg:

> "Nod Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth Cymraeg 2050 yw sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn canol y ganrif (Llywodraeth Cymru, 2017a). Mae'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn rhan allweddol o wireddu'r nod hwn, oherwydd ei bod yn cynyddu'r nifer o bwyntiau mynediad[sic] at y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog drwy gydol gyrfa addysgol y disgybl." (Llywodraeth Cymru 2021)

Wrth gynnig beirniadaeth ar ddogfen bolisi Iaith Pawb (2003), Llywodraeth Cymru, nododd Williams (2005) :

> "There are two strategic variables which, if not handled correctly, threaten to undermine the political credibility of iaith Pawb. The first is the socio-economic well-being of beleaguered Welsh-speaking communities in

[3] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3048/section/3/made/welsh

> the north and west. The second is the response of the English-speaking majority to the declared targets, which are to be realized over ten years. If Iaith Pawb is serious in its mission, the non-Welsh speaking portion comprises some 80 percent of the 'everyone' (pawb) who counts in Wales. The only sustained way in which bilingualism can be increased is by a radical overhaul of the nation's education system, so that many more entry-points for gaining fluency in Welsh are created, and this will undoubtedly have ramifications for the school system, teacher training, teachers, parents, governors and, critically, schools alike."

Ysgrifennwyd y geiriau hyn bron ugain mlynedd yn ôl. Byddai'n ddigon teg disgwyl erbyn 2022 bod y pwyntiau mynediad hyn wedi eu hen sefydlu ac yn gweithredu'n gadarn. Ydy'r pwyntiau mynediad at ruglder yn y Gymraeg fel y sonnir gan Colin Williams (2005) i'w gweld yn amlwg yn ein system addysg Gymraeg yn 2022?

Yn ôl Cen Williams (2002), eto ugain mlynedd yn ôl, yn ei astudiaeth ar addysg drochi mewn ysgol uwchradd yn y Gogledd-ddwyrain, nodwyd yn gadarn bod angen ymateb i'r diffyg yn y cynllunio.

> "Os yw gwleidyddion a gweinyddwyr addysg o ddifrif ynglŷn â gweld dwyieithrwydd yn dod yn norm yn ystod y ganrif yma, ac am weld holl blant a phobl ieuainc Cymru'n cael yr un cyfle i ddatblygu eu dwyieithrwydd, rhaid gwneud y Gymraeg (yn ogystal â'r Saesneg) yn gyfryngau dysgu byw a real yn ein hysgolion uwchradd."
>
> (C. Williams 2002 tt3)

Noda hefyd bwysigrwydd sylweddoli mai trwy addysg cyfrwng Cymraeg y daw'r canlyniadau llwyddiant gorau - sydd yn awgrymu'r model trochi o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

> "Mae profiadau'r gorffennol wedi dangos mai wrth ddefnyddio'r iaith yn gyfrwng y daeth y llwyddiant mwyaf dwys a pharhaol."
>
> (C. Williams 20021 tt3)

Yn hanesyddol, mewn nifer o ardaloedd, byddai'r ysgolion yn amsugno'r dysgwyr ac yn eu cymathu heb effaith arwyddocaol ar ethos ieithyddol yr ysgol gan fod y niferoedd yn lled isel.

Ers cychwyn y cysyniad o addysgu yn y dull trochi, pan addysgwyd iaith yn ddwys i filwyr yr Unol Daleithiau cyn eu hanfon i faes y gad yn ystod yr ail ryfel byd (Baker & Wright, 2021), ac ers i ddatblygiad y dull ac yn wir y term "trochi" gael ei fathu yn yr 1960au yng Nghanada i addysg'r Ffrangeg yn ardal Montreal, Quebec, y mae addysgu a chaffael iaith mewn dull dwys wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth mewn nifer o wahanol gyd-destunau ar draws y byd, ac wedi bod yn allweddol i wyrdroi tranc nifer o ieithoedd lleiafrifol.

Mae'r traethawd hwn yn edrych ar i ba raddau y mae darpariaeth addysg drochi hwyr i'r Gymraeg ar lefel llywodraeth leol yn llwyddo i gyflawni amcanion hyrwyddo ieithyddol llywodraeth ganol yng Nghymru. Gan ystyried y datblygiadau diweddar ym maes polisi iaith ac addysg Gymraeg yng Nghymru, edrychir ar arwyddocâd a pherthnasedd addysg drochi hwyr i'r unfed ganrif ar hugain gan holi ambell gwestiwn, megis "Oes angen addysg drochi hwyr yng Nghymru o hyd neu a ddylai'r system addysg gefnogi addysgu'r Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar yn unig?"; ac " a oes cysondeb rhwng y modd y mae gwahanol Awdurdodau Lleol yn mynd i'r afael â darparaieth drochi hwyr ? " Edrychir ar beth yw diffiniad trochi ieithyddol hwyr, dechreuadau'r fethodoleg hon, a sut y mae trochi ieithyddol hwyr wedi datblygu dros y blynyddoedd fel methodoleg i gaffael iaith. Adolygir y mathau gwahanol o drochi iaith sydd yn digwydd yn y byd ac yng Nghymru heddiw. Ffocysir ar Dde Ddwyrain Cymru'n benodol yn yr ymchwil ei hun, ar yr heriau sydd yn wynebu ardal sydd â'r siroedd o ddwysedd siaradwyr Cymraeg cymunedol isaf yng Nghymru, a phriodoldeb a chysondeb y ddarpariaeth drochi hwyr yn yr ardal hon.

Ymchwilir i brofiadau rhieni a'r gweithlu wrth gynnal trosolwg o'r sefyllfa ar draws yr ardal, gan gyflwyno argymhellion mewn cyfnod o arwyddocâd *cymdeithasol* gyda Cofid-19, ac *addysgol* ar drothwy cychwyn gweithredu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg 2022-2023.

Dewiswyd y De-ddwyrain i adlewyrchu maes diddordeb daearyddol a ieithyddol -cymdeithasol penodol yr ymchwilydd ac, yn ogystal, gan i adroddiad Cen Williams (2002) symbylu'r ymchwilydd i edrych ar sefyllfa debyg mewn ysgolion uwchradd yn y De-ddwyrain gyda chanrannau tebyg o ddysgwyr yn dod o gartrefi di-Gymraeg mewn ysgolion sydd yn cynnig y model trochi hwyr. Nid astudiaeth gymharol a geir yma, er efallai y byddai hynny'n ymarferiad diddorol i'w gynnal yn dilyn yr ymchwil hwn.

Y siroedd a ystyrir fel y De-ddwyrain yn y cyswllt hwn yw:

Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent

Cyngor Dinas Caerdydd

Cyngor Caerffili

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Torfaen

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Merthyr

Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr



Ffigur 1 Ffynhonnell Statiaith: Canranau wardiau Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg

http://statiaith.com/cymraeg/demograffig/cyfrifiad/2011/KS208/map_wardiau_KS208.html

Fel y gwelir ar y map uchod, y mae canrannau siaradwyr Cymraeg Cyfrifiad 2011 yn y De-ddwyrain yn gorwedd o fewn yn lliwiau porffor, gydag ambell un yn goleuo i'r glas canolig, ystod canran o 0% - 20%

Pam ei bod yn bwysig cynnal ymchwil yn y maes hwn ar yr adeg hon?

Wrth i strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, Cymraeg 2050, nodi'r weledigaeth hirdymor o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017), cydnabyddir bod caffael iaith drwy drosglwyddiad a defnydd o fewn y teulu yn un elfen allweddol ar gyfer cyflawni'r targed hwn. Yn wir, nodir fel thema gyntaf y strategaeth: 'Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg', sef yr angen i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad ar gyfer addysg Gymraeg. Ond nid yw datblygu addysg Gymraeg yn un-ddimensiynol. Y mae'n gylch, ac y mae angen i'r cylch hwn gau'n feunyddiol er mwyn i'r dysgwyr ddod yn ddefnyddwyr o fewn ein cymunedau.

Y mae trochi hwyr wedi bod yn elfen bresennol yn ein system addysg yng Nghymru ers degawdau erbyn hyn. Sefydlwyd canolfannau iaith yng Ngwynedd, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod holl ddysgwyr y sir yn cael eu cymhathu yn yr iaith yn llwyr gan fod i'r sir bolisi iaith 100%. Y mae siroedd eraill y gogledd hefyd wedi sefydlu modelau gwahanol i fynd i'r afael â dysgwyr sydd yn cyrraedd yr ysgolion yn hwyr oherwydd eu bod yn symud i ardal lle ceir addysg Gymraeg fel yr unig ddewis, yr ysgol agosaf neu am fod rhieni am i'w plant gael addysg Gymraeg yn hwyrach na'r pwynt mynediad traddodiadol yn y blynyddoedd cynnar.

Yn ystod cyfnod yr ymchwil hwn, daeth y maes trochi hwyr yn fwy pwysig ac yn amlycach o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Yn ystod y cyfnodau clo, daeth i sylw bod awdurdodau lleol ar draws Cymru yn gweld dysgwyr yn symud o gael eu haddysgu mewn ysgolion Cymraeg i ysgolion Saesneg gan fod rhieni'n pryderu bod iaith eu plant yn dirywio o beidio â bod mewn amgylchedd lle y clywyd y Gymraeg yn ystyod y dydd.

Mewn ymateb i hyn ac i gynnig cefnogaeth i ysgolion gefnogi dysgwyr oedd yn cael trafferth gydag effeithiau peidio â bod yn yr ysgol ac wedi eu hamgylchynnu â'r Gymraeg, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gronfa o £22miliwn i awdurdodau lleol gefnogi'r elfen hwyrddyfodiaid o fewn eu hysgolion. (cystrawen lletchwith)

Ymgais yw'r ymchwil hwn yw astudio'r cysylltiad rhwng yr awydd cenedlaethol a'r gweithredu lleol o ran trochi ieithyddol hwyr o fewn ysgolion.

PENNOD 2

ADOLYGIAD LLENYDDOL

Yr yr adolygiad llenyddol hwn, adolygir yn fras ddechreuadau'r cysyniad o addysg drochi gan edrych ar y gwahanol fathau o drochi ieithyddol sydd yn bodoli mewn rhai cyd-destunau daearyddol a chymdeithasol a sut y mae'r dull trochi hwn wedi cael ei gymhwyso yng Nghymru. Adolygir yn ogystal ddogfennaeth ymchwil, strategaethau, polisïau a chynlluniau sydd wedi ceisio dylanwadu ar y ffordd o weithredu trochi ieithyddol canol a hwyr yng Nghymru yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf a'r datblygiadau diweddaraf.

Cyflwyniad

Mae addysg ddwyieithog wedi bodoli ledled y byd ers blynyddoedd lawer, ac mae wedi dod yn fwyfwy i'r amlwg mewn cyd-destunau cenedlaethol gwahanol o ganlyniad i nifer o ffactorau cymdeithasol (Baker & Wright, 2017). Yn yr Unol Daleithiau, daeth addysg ddwyieithog i'r amlwg i ddechrau o fewn y cyd-destun hanesyddol mewnfudo (yn y 18fed a'r 19eg ganrif) ac mewn ffurfiau mwy cyfoes o fewn cyd-destun mudiadau gwleidyddol megis y mudiad hawliau sifil a chydraddoldeb addysgol, yn ogystal â pholisïau iaith yn yr 1960au (Baker & Wright, 2017; Ovando, 2003).

Dylanwadwyd systemau addysg ar hyd y blynyddoedd o ganlyniad i anghenion ieithyddol teuluol a gellir olrhain yr ymchwil gynharaf ar ddwyieithrwydd ymysg plant o fewn teuluoedd nôl i waith Ronjat (1913) a Leopold, W. (1939– 49/1970). Yng ngwaith Ronjat disgrifiwyd sefyllfa lle yr oedd y fam yn siarad Almaeneg a'r tad yn siarad Ffrangeg mewn cymuned Ffrengig. Dyma adnabod ac enwi'r system UIUP (OPOL) Un

Iaith Un Person lle y byddai un iaith yn cael ei siarad drwy'r amser i'r plentyn gan un rhiant ac yna'r ddwy iaith felly'n datblygu gan y plentyn.

Y mae sefyllfaoedd ieithyddol teuluoedd yn eu tro wedi dylanwadu'n gref ar y systemau addysg dros y blynyddoedd a'r systemau hynny mewn gwahanol wledydd wedi ymateb i'r anghenion lleol hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd yn ôl gwead, anghenion a galwadau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd y gwledydd hynny.

Datblygwyd rhaglen addysg ddwyieithog gref o addysg drochi iaith yng Nghanada, yn yr 1960au gyda chefnlen cryfhad ac arwyddocâd yr iaith Ffrangeg yn nhalaith Québec (Genesee, 2015). Roedd grŵp o rieni Saesneg eu hiaith yn St. Lambert, un o faestrefi Montreal, yn pryderu nad oedd eu plant yn ddigon hyfedr yn yr iaith Ffrangeg yn y rhaglenni Ffrangeg "craidd" traddodiadol. Roeddent am ganfod ffordd fwy effeithiol o ddatblygu dwyieithrwydd eu plant a chawsant eu hysgogi hefyd gan awydd i sicrhau y byddai eu plant yn gallu cystadlu yn y farchnad swyddi yn ardal Québec, lle'r oedd Ffrangeg ar fin dod yn iaith swyddogol y gweithle. Manteisiwyd ar arbenigedd academyddion lleol ym Mhrifysgol McGill, sef Wallace Lambert a Richard Tucker, a gofyn am eu cyngor a'u cefnogaeth er mwyn datblygu model amgen— "bath iaith" neu raglen drochi lle byddai addysgu pob pwnc yn digwydd i ddechrau yn ail iaith y plant sef y Ffrangeg.

Bwriad gwreiddiol y rhieni hyn oedd sicrhau hyfedredd y plant nid yn unig yn yr iaith o ran llafaredd, darllen ac ysgrifennu ond hefyd er mwyn cyrraedd safonau arferol cyrhaeddiad ar hyd y cwricwlwm yn cynnwys yn y Saesneg. Yn ogystal â hyn roedd

awydd gwirioneddol i'r disgyblion ddod yn hyddysg hefyd yn niwylliant siaradwyr Ffrangeg Canada. Disgrifia Baker & Wright fel hyn:

> "In short, the aims were for children was to become bilingual and bicultural without loss of achievemnet. The economic and employment advantages to be gained from bilingualism, biliteracy and bicultururalism may also have been motivatorns."
>
> (Baker & Wright 2021, tt 244)

Mae defnyddio'r dull trochi i gaffael ac addysgu iaith wedi dod yn erfyn cyffredin erbyn yr unfed ganrif ar hugain.

Modelau trochi iaith

Term cwmpasog yw addysg drochi yn ôl Baker & Wright (2021) ac fe'i defnyddir i ddisgrifio ystod o wahanol fathau o addysgu iaith yn ddwys gyda dau brif ffactor yn eu diffinio:

1. Oedran y cychwynnir y profiad - trochi cynnar o'r blynyddoedd cynnar, trochi canol o adeg diwedd ysgol gynradd neu drochi hwyr yn yr ysgol uwchradd
2. Yr amser a dreulir yn y broses drochi - fel arfer dechreuir gyda 100% yn I2 ar gychwyn y cyfnod ysgol gan symud i 80% erbyn diwedd cyfnod addysg y blynyddoedd cynnar ac yna i 50% erbyn diwedd yr ysgol gynradd. Golyga addysg drochi rannol tua 50% yn I2 yn y cyfnod cynradd.

(Baker & Wright 2021, t 244)

Ac felly mae modd derbyn addysg drochi gynnar, canol neu hwyr, yn llawn neu'n rhannol.

Crynhoa Johnson a Swain (1997) wyth nodwedd graidd rhaglenni trochi fel a ganlyn:

1. Mae I2 yn gyfrwng addysgu
2. Mae'r cwricwlwm trochi yn gyfochrog â'r cwricwlwm I1 lleol
3. Mae cefnogaeth amlwg i I1
4. Mae'r rhaglen yn anelu at ddwyieithrwydd ychwanegus
5. Mae amlygiad i'r I2 wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i'r ystafell ddosbarth
6. Mae myfyrwyr yn dechrau gyda lefelau tebyg (a chyfyngedig) o hyfedredd I2
7. Mae'r athrawon yn ddwyieithog
8. Diwylliant y dosbarth yw diwylliant y gymuned I1 leol

Gellir gweld o'r nodweddion hyn sut yr oedd dyhead a chysyniad gwreiddiol rhieni St Lambert wedi datblygu i fframwaith neu fodel ar gyfer trochi effeithiol.

Y mae'r nodweddion hyn wedi eu hefelychu a'u mabwysiadu mewn nifer o wledydd ar draws y byd er mwyn addysgu ieithoedd gyda'r bwriad o adfer neu gynnal ieithoedd cynhenid o fewn cymunedau.

Gellir olrhain hanes raglenni trochi yn yr Unol Daleithiau ar gyfer y Navajo, iaith Hawai'i a Yup'ik (Baker & Wright 2021).

Mewn adroddiad gan Jones a Wilson (2012) wrth gyflwyno cymhariaeth o fodelau trochi Iaith ar gyfer datblygu model addysg ar gyfer Gaeleg yr Alban, y maent yn gosod enghreiffitau cynhwysfawr o gynlluniau trochi iaith mewn gwahanol wledydd wedi eu dosbarthu mewn gwahanol gategorïau yn ôl cymhelliant a phwrpas ieithyddol y cynllun.

Pwrpas y papur hwn oedd gosod y sefyllfa'n glir i fwrdd iaith Gaeleg yr Alban, Bòrd na Gàidhlig am yr amrywiol fathau a sefyllfaoedd ac yn wir effeithiolrwydd addysgu trwy'r dull trochi er mwyn gosod a pharatoi polisi ar gyfer trochi iaith yn yr yr Alban.

Yr hyn a wna Jones a Wilson (2012) yw dosbarthu'r ieithoedd hyn i mewn i grwpiau yn ôl pwrpas a chymhelliant y gwahanol fathau o drochi iaith. Isod nodir y pedwar grŵp gan nodi'r ieithoedd a'r lleoliad daearyddol ym mhob grŵp.

Cymhelliant	Iaith a lle
Trochi "ail iaith"	Ffrangeg, Canada
Addysg Drochi iaith adfywiol	Māori, Aoteawa / Seland Newydd Ieithoedd brodorol UDA a Chanada megis iaith Hawai'i, Navajo / Diné (Arizona), Mohawk a Cayuge, Ontario.
(Trochi mewn) Addysg Ddwyieithog Datblygiadol	Gaeleg yr Alban Cymraeg Catalaneg, Catalonia Basgeg, Cymuned Ymerolaethol y Basgiaid (BAC)
Trochi Dwyffordd (dwy-iaith).	UDA fel arfer y Saesneg a'r Sbaeneg yn bennaf er bod hyn yn digwydd mewn gwledydd eraill hefyd yn cynnwys Cymru

Ffigur 2

Maent bob un yn cynnig enghreifftiau o sut y mae addysg drochi wedi datblygu yn ôl anghenion yr ieithoedd yn y gwledydd hynny, eu heffeithiolrwydd a'u harwyddocâd i hyfywedd yr ieithoedd yn eu lleoliadau unigryw eu hunain.

Addysg drochi yng Nghymru

Nodwedd gyffredin rhwng arbrawf Lambert yng Nghanada a dechreuadau addysg drochi yng Nghymru yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, oedd bod y teuluoedd hynny oedd yn ceisio addysg drochi yn bobl ddosbarth canol ac yn gorfod talu am yr addysg honno gan nad oedd, ar y cychwyn, yn rhan o fodel addysg y wladwriaeth.

Gellid olrhain ymgais gynnar i newid cyfrwng addysg i'r Gymraeg yng Nghymru gyda phenodiad Owen Edwards yn Brif Arolygwr y Bwrdd Addysg newydd yng Nghymru yn 1907. (Morgan 2002). Yn y "Rheolau" nodwyd fel a ganlyn

a. 'Dylai cwrs addysg yr ysgol, fel rheol, gynnwys yr Iaith Gymraeg'
b. 'Gellir dysgu unrhyw bwnc yng nghwrs addysg yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg, pa le bynnag y bo amgylchiadau'n caniatáu.'

Y Bwrdd Addysg, Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd. HMSO, 1927, tt 84-85

Ond fel y noda Morgan (2002), tra nad oedd y Llywodraeth ar y pryd yn wrthwynebus, nid welwyd y newid hwn yn y rheolau'n ennyn y newid ehangach a fwriada, ddim hyd yn oed yn yr ardaloedd Cymraeg. Yr oedd y Saesneg yn parhau'n dyfrwng dysg a statws y Gymraeg yn parhau'n is o fewn cymdeithas ar gyfer y byd gwaith, busnes ac addysg.
Ei fab, Ifan, Syr Ifan ab Owen Edwards, oedd yn gyfrifol am agoriad yr ysgol Gymraeg gyntaf a gafodd ei sefydlu yn Aberystwyth yn 1939. Roedd hon yn ysgol breifat, ac er i fudiad yr Urdd wneud eu gorau glas i gynnal yr ysgol, nid oedd yn gynaliadwy. Yr oedd ymgyrchu mewn ardaloedd eraill o Gymru wedi peri i ysgolion Cymraeg o dan ofal y wladwriaeth gael eu sefydlu, gydag ysgol Gymraeg gyntaf yn cael ei sefydlu yn Llanelli yn 1947, yn dilyn deiseb gan rieni.

Addysg Gymraeg yn datblygu

Gellir olrhain hanes addysg Gymraeg yn datblygu o bersbectif hanesyddol a gwleidyddol mewn nifer o gyfrolau a phapurau. Yn *Gorau Arf, 2002,* ceir clytwaith lliwgar o awduron yn cofnodi'r brwydrau lleol a chenedlaethol, y colledion a'r buddugoliaethau ar draws Cymru ac ar draws canrif o hanes datblygiad addysg Gymraeg. Arwyddocâd y gyfrol hon yw ei bod yn dangos yn eglur rym rhieni wrth wthio'r agenda ymlaen. Disgrifia Williams ar gychwyn y rhagair y datblygiad fel hyn

> "Un o ryfeddodau ail hanner yr ugeinfed gannrif yng Nghymru oedd datblygiad Ysgolion Cymraeg. Ysgolion, mewn ardaloedd Seisnigedig yn bennaf, yn defnyddio'r iaith Gymraeg fel iaith dysgu, iaith chwarae, iaith gweinyddu ac iaith cymdeithasu".
>
> Gorau Arf 2002, tt 7

Addysg drochi yng Nghymru a dylanwad dull Canada

Yn y blynyddoedd cynnar y datblygodd ddull Canada o ddysgu'r ail iaith i ddechrau, gyda phlant 4 - 5 oed, yr hyn a elwir yn trochi cynnar. Yna ymestynnodd i gynnwys trochi canol gyda disgyblion 8-10 oed neu Gyfnod Allweddol 2 yng nghyd-destun Cymru. Cyflwynwyd trochi hwyr ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol uwchradd yn y pendraw ar gyfer y disgyblion 11-13 oed. Yr elfen greiddiol sydd y tu ôl i'r math hwn o addysgu iaith yw sicrhau profiadau mewn cyd-destunau ieithyddol dilys, mor agos i brofiadau addysgu iaith gyntaf ag y bo modd, yn hytrach na dulliau addysgu iaith tramor. (Jones & Wilson 2012). Ac y mae'r dull trochi cynnar wedi bod yn erfyn effeithiol iawn yn sicrhau bod dysgwyr yn caffael y Gymraeg naill ai fel ei mamiaith neu fel ail iaith ond o fewn cyd-destun addysg mamiaith yn effeithiol.

Trochi cynnar, canol a hwyr yng Nghymru

Disgwyliadau cenedlaethol

Defnyddir y term “Hwyrddyfodiaid” yn helaeth erbyn hyn a chaiff ei ddiffinio yn y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (2019: 8) fel ‘plant (sy’n 7 oed neu drosodd) nad ydynt yn siarad Cymraeg ond sy’n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl diwedd y cyfnod sylfaen.’ Ac felly defnyddir y term hwn i gwmpasu dysgwyr trochi canol a hwyr.

Bu amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr hwyr dderbyn addysg drochi ers degawdau ac y mae dogfen amserol iawn Llywodraeth Cymru “Addysg cyfrwng Cymraeg drwy drochi hwyr: mapio'r ddarpariaeth yng Nghymru” (Young 2021), yn nodi’r cyfleoedd cyfredol hyn yn fras. Ceir trosolwg o’r cynlluniau trochi canol a hwyr sydd wedi digwydd ar hyd a lled Cymru, yn cynnwys y canolfannau iaith a sefydlwyd o dan oruchwyliaeth Bwrdd yr Iaith yn ogystal â’r trochi a ddigwyddodd yn bennaf yn yr ardaloedd hynny lle y mae dwysedd siaradwyr Cymraeg yn uwch a lle y clywid Cymraeg yn y cymunedau, lle yr oedd yn iaith fwyafrifol. Ond y mae natur addysg drochi wedi symud yn arwyddocaol ers y dyddiau hynny a chanolfannau trochi hwyr erbyn hyn wedi eu sefydlu mewn ardaloedd dinesig a lle nad yw’r Gymraeg mor glywadwy o fewn y gymuned. Noda’r ddogfen yn glir ganran siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru sydd mewn addysg Gymraeg erbyn hyn.

> “Nod addysg drochi yng Nghymru yw cyflwyno’r Gymraeg i ddysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref, er mwyn iddynt allu dilyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn addysg drochi ar draws Cymru, caiff dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref eu haddysgu yn yr un dosbarthiadau â dysgwyr sydd yn siarad Cymraeg gartref. Yn 2020, roedd 39% o ddysgwyr blwyddyn 1 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn siarad Cymraeg gartref, ac roedd 22% o ddysgwyr blwyddyn 1 mewn ysgolion dwyieithog yn siarad Cymraeg gartref.” (Young 2021 1.2, tt 3)

Y mae hyn yn galonogol i'w weld ac y mae'n cadarnhau'r hyn a ddywedodd Colin Williams yn ei asesiad o Iaith Pawb am yr angen i ymestyn cynulleidfa addysg Gymraeg. Wedi'r cyfan Iaith **Pawb** oedd enw'r polisi.

Erbyn 2021 yr ydym wedi gweld cryfhau arwyddocaol gan Lywodraeth Cymru o'r polisi ar gyfer hwyrddyfodiaid ac o'r diwedd y mae'r cydnabod yr angen i sicrhau bod addysg Gymraeg yn hygyrch i bawb ym mha bynnag gyfnod y daw'r dysgwyr ato.

Ond un peth yw polisi a dyhead cenedlaethol, peth arall yw gweithredu'r polisi ar lawr gwlad a tra bod yna gynlluniau trochi wedi eu cychwyn megis canolfannau iaith Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr a chynllun trochi hwyr Ysgol Maes Garmon, gyda llwyddiannau amlwg, ymddengys bod y gwaith o drosglwyddo'r awydd polisi cenedlaethol i'r lleol wedi ei adael i anghenion ac i bob pwrpas mympwy lleol yn ôl adnoddau a chapasiti lleol.

Noda Young (2021)

> "Canfu Estyn mewn gwerthusiad o'r 5 prosiectau peilot (2006: 20) bod y nodweddion sy'n gyffredin i lwyddiant mewn rhaglenni trochi Cymraeg fel a ganlyn:
>
> - 'athrawon rhugl sy'n fodelau da ar gyfer yr iaith darged ac sy'n gwneud dysgu yn hwyl;
> - cyflymder ac amrywiaeth yn yr addysgu a'r dysgu;
> - sicrhau parhad a chynnydd mewn dysgu yn Gymraeg ar draws y cwricwlwm ar lefel uwchradd;
> - cymorth da wedi'i dargedu i ysgolion gan awdurdodau addysg lleol;
> - cyswllt da rhwng pob un o'r asiantaethau; a
> - chysylltiadau agos rhwng ysgolion a phartneriaid."
>
> Young 2021 1.4 tt 4-5

Ac felly gellid nodi'n weddol hyderus bod y dulliau hyn wedi bod yn llwyddiant. Teg nodi y byddai disgwyl i'r rhaglenni hyn fod wedi cael eu hehangu a'u gweithredu mewn ardaloedd eraill a bod yn elfen arferol a hygyrch i ddysgwyr ym mhob rhan o Gymru.

Effaith Cofid-19 ar gaffael y Gymraeg

Fel awgrymwyd eisoes, daeth y pamdemig Cofid-19 a'i ofidiau ieithyddol yn ogystal ag i'n hiechyd. Yn sydyn, roedd miloedd o ddysgwyr trochi cynnar, canol a hwyr yn gorfod dysgu o adref. Y mae Young yn nodi'r ymateb a gafodd i'w hadolygiad gan fod y cyfnod wedi amlygu heriau bod y dysgwyr yn colli'r cyswllt dwys a chyson gyda'r iaith ond hefyd bod yn anfanteision wedi dod gyda throsglwyddo a chryfhau dulliau rhithiol o gyfathrebu, Noda'r cryfhau a ddigwyddodd mewn rhai ardaloedd o'r ôl ofal lle yr oedd modd cysylltu'n rhithiol gyda'r dysgwyr er mwyn eu cefnogi ymhellach.

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032

Ers 2013 y mae wedi bod yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Heb fframwaith amlwg i'w defnyddio er mwyn craffu ar y ddarpariaeth caffael ieithyddol hwyr o fewn ein system addysg rhaid oedd chwilio am erfyn arall oedd yn cynnig ei hun fel model ar gyfer. Daeth y cynlluniau 3 blynedd i ben yn 2021 ond gyda dyfodiad pandemig Cofid-19, gwthiwyd yr amserlen ymlaen er mwyn bod Awdurdodau lleol yn cael mwy o amser o gynllunio ac felly bydd y cynlluniau deng mlynedd cyntaf yn

cychwyn ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032. Dyma ail gylch y cynlluniau strategol. Bydd y cynlluniau yn rhai 10 mlynedd Fedi 2022 ymlaen.

Yn gefnlen i gylch newydd y cynlluniau strategol hyn y mae nifer o feysydd polisi gan Lywodraeth Cymru lle y mae'r Gymraeg ac addysg Gymraeg yn benodol yn cael ei nodi'n flaenoriaeth.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol

Symud Cymru Ymlaen 2016-2021

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017-21

Y Gymraeg mewn Addysg, Cynllun Gweithredu 2017-211

Nod Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth Cymraeg 2050 yw sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn 2050. (Llywodraeth Cymru 2017) Y mae addysg yn cael ei gydnabod fel y maes a fydd yn cyfrannu'n fwyaf arwyddocaol i'r nod hwn.

Yn y cyflwyniad at ganllawiau cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru, nodir:

> "Y mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 20131 ("Deddf 2013") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ("y Cynllun"), ac mae'n nodi y dylai Cynllun o'r fath gynnwys:
> a. Cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn:
> i. Gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("addysg cyfrwng Cymraeg") yn cael ei darparu yn ei ardal;
> ii. Gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal;
> b. Targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;

> c. Adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol. Mae adran 84 hefyd yn nodi pwy y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ymgynghori â nhw wrth baratoi neu ddiwygio ei Gynllun, ac mae'n darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ragnodi unigolion eraill y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â nhw.
> Mae adran 85 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno ei Gynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Gall Gweinidogion Cymru wneud y canlynol:
> ● cymeradwyo'r Cynllun fel y'i cyflwynwyd
> ● cymeradwyo'r Cynllun gydag addasiadau, neu
> ● wrthod y Cynllun a llunio Cynllun arall a gaiff ei drin fel Cynllun cymeradwy'r awdurdod
> Mae is-adran (6) o adran 85 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gymryd pob cam rhesymol i weithredu Cynllun a gymeradwywyd."

Yn ogystal â'r angen erbyn hyn i Awdurdodau Lleol orfod cynllunio'r fwriadus ar gyfer darpariaeth addysg Gymraeg o fewn y siroedd, dim ond yn ddiweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir yr angen i nodi'n benodol sut y bydd y gwaith o gynllunio o fewn yr Awdurdodau Lleol ar gyfer dysgwyr trochi hwyr yn digwydd ac yn cael ei ddarparu. Mae Atodlen 7 Deddf Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn nodi bod angen cynnwys:

> 7. Datganiad sy'n nodi trefniadau'r awdurdod lleol o ran ei ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid (10)[4] i addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sut a phryd y mae gwybodaeth yn cael ei rhoi i rieni a gwarcheidwaid.

Mae'r canllawiau'n awgrymu bod y datganiad hwn yn cael ei gynnwys yn neilliant 2 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol. Mae'n holi am gysondeb y cynllun gyda gweledigaeth hir dymor yr Awdurdod lleol ar gyfer addysg Gymraeg ac y mae hefyd yn gofyn am nodi darpariaeth bresennol ac i nodi'r bwriad i ehangu dros gyfnod y cynllun.

[4] (10) Plant (sy'n 7 oed neu drosodd) nad ydynt yn siarad Cymraeg ond sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl diwedd y cyfnod sylfaen.

Bu'r Awdurdodau Lleol yn drafftio ac yn adolygu ar eu cynlluniau dtafft yn gyhoeddus dros fisoedd olaf 2021 ac yr oedd modd gweld cynnwys y cynlluniau hyn ar wefannau'r Awdurdodau Lleol.

Ansawdd a chynnwys y cynlluniau

Cymysg oedd safon y cynllunio ar gyfer y dysgwyr trochi hwyr yn ystod y cam cychwynnol hwn. Ond daeth cyhoeddiad o gyllid ychwanegol penodol ar gyfer cefnogi hwyrddyfodiaid gan Lywodraeth Cymru yn ystod misoedd diwethaf yr ymchwil a sbardunodd awdurdodau lleol i ymateb gan wneud ceisiadau gyda rhai awdurdodau lleol yn cychwyn cynllunio cynnig darpariaeth i hwyrddyfodiaid am y tro cyntaf. Nid oedd y ceisiadau hyn yn gyhoeddus chwaith. Bydd yn rhaid aros i weld beth fydd y cynlluniau o fewn y CSCAu ym Medi 2022.

Realiti lleol.

Wrth edrych drwy wefannau siroedd y De-ddwyrain, gan gymharu cynnwys cynlluniau cyntaf 2017-2020 gyda dyheadau drafftiau 2022-2032, roedd amrywiaeth yn y gydnabyddiaeth am ddarparu addysg drochi hwyr ac yn y bwriad i'w ddarparu. Roedd Cyngor Caerffili'n nodi yn y cynllun CSCA drafft bod angen edrych ar ddarparu polisi ffurfiol ar gyfer trochi hwyr ond erbyn drafft y cynllun diweddaraf yr oedd yn parhau'n ddyhead.

Noda yn y cynllun drafft[5] mwyaf diweddar (2021):

> "Ar hyn o bryd mae ein hysgolion cynradd yn derbyn plant i'r Cyfnod Sylfaen sy'n cefnogi eu caffaeliad Cymraeg trwy dechnegau trochi yn yr ystafell ddosbarth. Mae plant a phobl ifanc yn gallu trosglwyddo i'r

[5] http://212.219.240.82/documents/s37379/Atodiad%201.pdf?LLL=1

> Gymraeg ar unrhyw adeg yn eu haddysg, er mai ychydig sy'n gwneud hynny, er bod gan ein Hysgol Uwchradd yr offer i gefnogi'r pontio. Fodd bynnag, wrth i hyrwyddiad (sic) gynyddu dros oes y cynllun hwn ac wrth i agweddau cadarnhaol geisio addysg Gymraeg, mae'n debygol y bydd cynnydd yn y galw am leoedd Cymraeg a'r angen am bolisi ffurfiol i hwyrddyfodiaid ynghyd â darpariaeth drochi benodol i gefnogi hyn. Mae hwn yn angen datblygu yn ystod pum mlynedd gyntaf y cynllun hwn."

Yr oedd y naratif uchod yn gyffredin rhwng y CSCAu ar draws y De-ddwyrain. Mae'r trochi'n digwydd yn bennaf yn y blynyddoedd cynnar ond bod yna ambell ddysgwr yn cyrraedd yn hwyrach a bod yr ysgol yn ymateb i'r dysgwr hynny'n anffurfiol. Ond yr oedd y sir hon gydag eraill yn cydnabod bod angen ffurfioli'r ddarpariaeth drochi canol a hwyr o fewn y sir drwy bolisi a gweithdrefn gadarnach.

Yn siroedd y De-ddwyrain y cadarnhawyd trwy'r adolygu'r CSCAu drafft bod yna ddwy ganolfan drochi hwyr a thair ganol wedi eu sefydlu mewn tair sir. Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy.

Os yw'r polisi cenedlaethol yn dyheu am weld bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y cyfleoedd gorau i dderbyn profiadau ystyrlon ac o safon uchel er mwyn medru defnyddio'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg yna nid oes modd i ni gyfyngu ar ein cynulleidfa mwyach. A yw trefniadau lleol felly'n llesteirio'r pwyntiau mynediad hyn? Oes digon yn cael ei wneud ar lefel awdurdod lleol i hyrwyddo a rhannu'r wybodaeth am addysg Gymraeg? Sut ydyn ni i gau'r blwch rhwng y dyhead cenedlaethol a'r gweithredu lleol?

Rhaid i ni edrych yn gynhwysol ar gyfyngiadau'r system bresennol a chanfod ffyrdd a phwyntiau mynediad newydd i siaradwyr newydd gaffael y Gymraeg o ba bynnag bwynt yn cychwyn.

PENNOD 3

Methodoleg

Crynodeb o'r cwestiwn ymchwil

Prif bwrpas yr ymchwil hwn oedd archwilio'r bwlch a oedd wedi amlygu rhwng y dyhead ym mholisïau a strategaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru i gynyddu'r pwyntiau mynediad at addysg Gymraeg trwy drochi ieithyddol canol a hwyr, a'r hyn a oedd yn cael ei weithredu ar lawr gwlad.

Y mae angen i ymchwil fod at bwrpas ymarferol a fydd o bwys ac yn ymwneud â chynnig atebion ar gyfer y byd go iawn (Denscombe 2017). Dywed Kurt Lewin 'Research that produces nothing but books will not suffice' (Lewin 1946: 35).

Roedd yr ymchwilydd yn awyddus, felly, i gynnal astudiaeth a fyddai'n gyfredol ac yn gallu cynnig rhai argymhellion i gynyddu'r pwyntiau mynediad at addysg Gymraeg ar gyfer y dyfodol.

Gosodai'r polisi cenedlaethol yn glir y dyhead i gynyddu'r pwyntiau mynediad:

> 'Mae cyfle hefyd gan bob awdurdod lleol i ddatblygu pwyntiau mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, boed yn y sector cynradd neu uwchradd, trwy ddarpariaeth benodol i hwyrddyfodiaid. Mae nifer o fodelau eisoes ar waith ar draws Cymru. Mae angen i ni wella ein dealltwriaeth o'r modelau sy'n cynnig y ddarpariaeth fwyaf effeithiol, a chymryd camau i gynyddu'r ddarpariaeth hon dros amser.' (Llywodraeth Cymru 2017: 38).

Dengys hyn fod polisi cenedlaethol wedi symud ymlaen hefyd o ddechreuadau'r CSCAu cyntaf i'r ail gylch gyda galwad clir i awdurdodau lleol fanylu ar eu trefniadau trochi canol a hwyr.

Nid oedd cerbyd amlwg heblaw am y CSCAu i weithredu'r dyhead hwn (Young, 2021) . Roedd tystiolaeth amlwg o weithredu lleol gan fod canolfannau trochi canol a hwyr wedi eu sefydlu gan ddau gyngor sir yn y De-ddwyrain, sef Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Dinas Casnewydd.

Yn 2021, roedd pryder am effeithiau'r pandemig Cofid-19 ar gaffael iaith dysgwyr wedi codi yn y cyfryngau yn dilyn straeon gan ysgolion a rhieni (BBC Cymru Fyw 2021) . Rhoddodd hwn sylw dwysach ar gaffael y Gymraeg o fewn ysgolion Cymraeg yn 2020-2021 gan fod ysgolion wedi gorfod symud o addysgu wyneb yn wyneb i addysgu cyfunol. Ond ymddengys nad oedd yr effeithiau hyn yn peri gormod o bryder yn ôl adroddiad gan y corff arolygu Estyn (Estyn, 2021), er i'r adroddiad nodi nad oedd wedi cynnwys gwaith maes yn ystod cyfnod y pandemig. Y mae Baker and Wright (2021) yn son am "wydnwch" y maes pan yn son am effaith cyfnod y pandemig ar addysgu iaith yn yr Unol Daleithiau

> "However, the history of bilingual education has demonstrated its resilience. It is possible that new policies and initiatives will emerge to address gross educational inequalities and unequal access to technology and wifi, and better models of bilingual family engagement."
> (Baker & Wright 2021tt 197)

Cyllid ychwanegol

Ymddengys y cafwyd ymateb cadarnhaol diweddar gan awdurdodau lleol, wrth i gyllid ychwanegol a glustnodwyd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth i hwyrddyfodiaid greu momentwm newydd. Crëwyd cyffro ac awydd newydd yn y maes. Dywedodd Jeremy Miles, y Gweinidog dros Addysg yng Ngymru:

> "Mae'r ceisiadau a ddaeth i law gan awdurdodau lleol ledled Cymru am gymorth trochi hwyr yn dangos gwir frwdfrydedd dros ehangu'r

> rhaglen hon. Rwyf wrth fy modd â'r ymrwymiad gwirioneddol ym mhob cwr o'r wlad i gefnogi ein dysgwyr i ymuno ag addysg Gymraeg, hyd yn oed os yw hynny'n digwydd yn ddiweddarach, a'u helpu i ddatblygu sgiliau byw dwyieithog."
>
> (Gweinidog y Gymraeg ac Addysg 2021)
>
> Ffynhonnell:
> https://llyw.cymru/ehangu-cymorth-trochi-yn-y-gymraeg-i-ddysgwyr-ledled-cymru

Ond petai dim arian i gyd-fynd â'r maes hwn, a fyddai'r awydd wedi bod yr un fath? Byddai cymharu'r cyfnod cyn y cyllid ac ar ôl y cyllid yn fodd i wneud hyn a, thrwy edrych ar gylch diwethaf y CSCAu a'r cylch presennol, gellir cadarnhau hyn.

Canolbwyntiwyd yr ymchwil ar ardal De-ddwyrain Cymru am ddau reswm yn bennaf. Yn gyntaf gan ei fod o ddiddordeb i'r ymchwilydd yn ddaearyddol gan ei bod yn byw yn yr ardal ac, yn ail, gan fod canolfannau trochi hwyr wedi eu sefydlu yn yr ardal o fewn y pum mlynedd diwethaf o ganlyniad i symbyliad yr awdurdodau lleol, sydd yn haeddu ymchwil pellach i ganfod y rhesymau dros hyn.

Mae trwch poblogaeth Cymru yn y De-ddwyrain fel y gwelir yn yr ystadegau isod ac, felly, yn yr ardal hon y gellir gwneud yn enillion pennaf dros y degawd nesaf.

	Poblogaeth Amcangyfrifol 2020
Pen-y-bont ar Ogwr	147,539
Bro Morgannwg	135,295
Caerdydd	369,202
Rhondda Cynon Taf	241,873
Merthyr Tudful	60,424
Caerffili	181,731
Blaenau Gwent	70,020
Tor-faen	94,832
Sir Fynwy	95,164
Casnewydd	156,447
Cyfanswm	1,552,527
Cyfanswm Gweddill Cymru	1,546,619

Ffynhonnell:https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year

Canfyddiadau rhieni a sut i'w casglu

Carfan allweddol a oedd yn rhan bwysig o'r ymchwil hwn oedd rhieni a gwarchodwyr. Roedd sut yr oeddynt yn derbyn yr wybodaeth am addysg drochi canol a hwyr Cymraeg o fewn eu cymunedau yn elfen yr oedd yr ymchwilydd yn awyddus i ddeall mwy amdani. Penderfynwyd ar fodd i gysylltu â''r garfan hon drwy, yn gyntaf, archwilio i'r dulliau lleol presennol o hyrwyddo/ ddarparu? trochi canol a hwyr ac yna cysylltu hyn â sut roedd rhieni yn cael mynediad at y wybodaeth ac hygyrchedd a hwylustod y broses o drosglwyddo o un ysgol i'r llall.

Llyfryn Mynediad i Ysgolion

Dechreua addysg statudol i ddysgwyr Cymru yn llawn-amser yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Golyga hyn y byddant yn troi'n 5 oed yn ystod eu blwyddyn ysgol gyntaf. Mae gan bob awdurdod lleol gyfrifoldeb i gynhyrchu llyfryn gwybodaeth am broses cael mynediad i'r ysgol a nodi gwybodaeth am ysgolion y sir a sut i wneud cais. Gwelir canllawiau penodol ar gyfer gwneud hyn yn nogfen Côd Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.[3] Er mwyn canfod y siroedd lle yr oedd darpariaeth drochi canol a hwyr, aethpwyd ati i wneud arolwg o'r llyfrynnau gwybodaeth mynediad hynny ar draws y De-ddwyrain.

Lluniwyd tabl i gasglu gwybodaeth er mwyn cynnal arolwg pen desg o wefannau'r deg awdurdod lleol i edrych ar sut oeddynt yn rhoi sylw i drochi canol a hwyr o fewn dogfennaeth y sir i rieni. Penderfynwyd craffu ar y wybodaeth ar wefan adran addysg pob cyngor ar gyfer mynediad i ysgolion yn 2020-2021 er mwyn gweld pa mor hygyrch oedd y wybodaeth. Penderfynwyd ar dair pennawd ar gyfer yr arolwg, gan ddefnyddio'r mesuriad Gwybodaeth Gynhwysfawr (GG) Peth Gwybodaeth (PG) Dim Gwybodaeth (DG) gan fanylu yn ôl y wybodaeth.

Dosbarthwyd y tabl fel a ganlyn:

Sir	Gwybodaeth am drochi canol a hwyr yn y llyfryn mynediad i ysgolion	Manylion am wneud cais i drochi canol a hwyr yn y llyfryn mynediad i ysgolion	Hygyrchedd gwybodaeth am addysg Gymraeg trochi canol a hwyr

Yna, cyfyngwyd yr ymchwil i'r siroedd lle yr oedd canolfannau trochi canol a hwyr wedi eu sefydlu, sef Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Dinas Casnewydd a Sir Fynwy.
Yn y flwyddyn 2020-2021, roedd tair canolfan drochi canol a dwy ganolfan drochi hwyr yn y siroedd hynny, sef:
Ysgol Gymraeg Glan Ceubal (canol) ac Ysgol Gyfun Bro Edern (hwyr) yn sir Caerdydd
Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed (hwyr) yng Nghasnewydd
Ysgol Gymraeg y Ffin (canol) yn Sir Fynwy.

Cysylltwyd â 'r 5 ysgol gan dderbyn caniatâd a chydweithrediad gan benaethiaid 4 ohonynt i gynnal arolwg ymysg rhieni plant a oedd yn mynychu'r canolfannau trochi ar y pryd. Derbyniwyd 9 ymateb.

Cysylltwyd â swyddogion addysg holl awdurdodau lleol y De-ddwyrain er mwyn cynnal arolwg o'r gweithlu. Derbyniwyd 10 ymateb.

O ganlyniad i niferoedd isel ym mhoblogaeth y cyfranogwyr, penderfynwyd ar ddull holiadur i gychwyn y gwaith ymchwil a chyfweliad lled-strwythuredig er mwyn gwneud astudiaeth achos o brofiadau uniongyrchol dau deulu yn Sir Casnewydd; – un â'u plant mewn addysg drochi canol, ac un â'u plant mewn addysg drochi hwyr.

Roedd yr ymchwilydd yn awyddus i edrych ar sut yr oedd rhieni wedi cyrraedd y pwynt o benderfynu ar addysg drochi canol a hwyr i'w plant. Beth oedd eu cymhelliant? Oedd patrwm yn y modd yr oedd awdurdodau lleol ac ysgolion yn cynorthwyo'r disgyblion i wneud cais i gael mynediad i'r ysgolion Cymraeg?

Ymchwiliwyd yn fwy cyffredinol i ganfyddiadau'r gweithlu a oedd yn arwain yr addysgu neu'n arwain ar y cynllunio ar gyfer addysg drochi ganol a hwyr. Cafwyd ymatebion o 5 awdurdod lleol allan o'r 10 gan 9 aelod o'r gweithlu. Rhaid cofio bod poblogaeth y grŵp hwn yn debygol o fod yn fach gan nad oes gan bob awdurdod lleol drefniadau ffurfiol ar gyfer trochi canol a hwyr eto.

Disgrifiad o'r dull ymchwil

Y prif erfyn tebygol ac amlwg, felly, i fesur effeithiolrwydd y dull trochi canol a hwyr oedd y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gan fod yr awdurdodau lleol hwythau ond wedi llunio drafft ail gylch y cynlluniau hynny ddiwedd 2021, nid oedd y cylch monitro cyntaf wedi digwydd ac, felly, nid oedd modd edrych ar effaith y cynlluniau hynny o ran addysg drochi hwyr drwy ddata'r adroddiadau blynyddol. Ni fyddai'r rhain ar gael tan Fedi 2023.

Penderfynwyd, felly, ar ddull ansoddol o ymchwilio yn dilyn yr adolygiad llenyddol a'r ymchwiliad pen desg i wybodaeth a ddarperid i rieni, gan fynd i ail gam er mwyn canfod a oedd y dyhead o fewn y dogfennau polisi yn ymddangos yr un mor gadarn ar lawr gwlad. Gan fod yr ystod o ddogfennau polisi swyddogol ? ar lefel cenedlaethol yn dangos awydd gwirioneddol i fynd i'r afael â chynyddu mynediad i hwyrddyfodiaid, defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau yn cynnwys holiadur i gynnal arolwg ac yna cyfweliadau i fynd yn ddyfnach i brofiadau lleol cyfranogion, er mwyn ceisio mynd at lygad y ffynnon.

Yn dilyn yr astudiaeth pen desg o ddogfennau cyhoeddus yn cynnwys gwaith academaidd rhyngwladol, polisïau a chynlluniau strategol y llywodraeth genedlaethol a chynlluniau lleol, adroddiadau mudiadau a chyrff addysg, yn ogystal ag adroddiadau yn y wasg, aethpwyd ati i ystyried cwestiynau pwrpasol i'w holi mewn arolwg drwy holiadur. Wrth ystyried y tair methodoleg draddodiadol ar gyfer yr ymchwil sef yr ethnograffaidd, yr arbrofol a'r arolwg, nid oedd y dull ethnograffaidd yn addas at ddibenion yr ymchwil hwn gan y golygai'r angen i arsylwi dros gyfnod hir ar ymddygiadau, a rhyngweithio unigolion â grwpiau. Nid oedd y dull arbrofol chwaith yn cynnig ei hun i'r ymchwil hwn. Penderfynwyd, felly, ar ddull yr arolwg.

Cynllunio'r arolwg

Yr oedd dau grŵp o gyfranogion i fod yn rhan o'r arolwg hwn. Yn gyntaf y teuluoedd a oedd wedi neu yn defnyddio'r canolfannau trochi canol a hwyr, a'r gweithlu sydd yn gweithio yn y canolfannau trochi, staff ysgolion Cymraeg cysylltiedig â'r gweithlu oedd yn cydlynu'r canolfannau trochi, naill ai'n weithredol neu'n strategol. Mae hyn yn cynnwys penaethiaid a swyddogion addysg awdurdodau lleol.

Wrth ddylunio'r fethodoleg ymhellach, yr oedd cyfle posibl hefyd i edrych yn fanwl ar brofiadau teuluoedd *unigol* gan gywain gwybodaeth er mwyn creu astudiaethau achos o brofiad y teulu wrth wneud penderfyniad i drosglwyddo i addysg Gymraeg. Roedd y cyfle i edrych yn fanylach ar y daith hon i'r rhieni yn allweddol i ddeall beth oedd eu cymhelliant, ac i ba raddau roedd y penderfyniad wedi bod yn un cadarnhaol.

Cam cyntaf yr ymgysylltu â chyfranogwyr yr ymchwil oedd llunio a dosbarthu holiadur ar lein dros e-bost yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau am eu profiad. Penderfynwyd creu dau holiadur - un i rieni a gofalwyr ac un i'r gweithlu.

Roedd yr holiadur i'r rhieni (Atodiad 1) yn canolbwyntio ar broses y wybodaeth am addysg Gymraeg, proses gwneud cais a'r profiad o drosglwyddo i addysg Gymraeg.
Roedd modd i holiadur y gweithlu (Atodiad 2) fanylu ar swyddogaeth y rhai a oedd yn ymateb drwy wasgu ar gwymplen o fewn yr holiadur electronig a dewis y gwahanol swyddogaethau posibl y byddai'r gweithlu yn eu gweithredu.
Dosbarthwyd yr holiadur ar e-bost rhwng y canolfannau trochi hwyr yng Nghaerdydd a Chasnewydd drwy penaethiaid a swyddogion addysg a phenaethiaid siroedd Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr, Mynwy a Thorfaen ar gyfer darparu'r holiadur i rieni.

Roedd yr holiadur i rieni a gwarcheidwaid yn cynnwys cwestiynau a holai am

- resymau dros benderfyniad rhieni i drochi eu plant yn hwyrach na'r dosbarth meithrin neu dderbyn.
- ba mor ymwybodol oedd y teulu am y model trochi hwyr yn yr ardal honno
- sut ddaeth y teulu i wybod bod y model hwn ar gael iddynt
- ba mor hwylus oedd y broses i'r plentyn a'r rhieni drosglwyddo i'r ysgol newydd
- ba gefnogaeth oedd yn cael ei chynnig i'r disgybl a'r teulu ar bob cam o'r ymholiad i'r cais cychwynnol i'r dosbarth.

Roedd y cwestiynau i'r gweithlu'n holi am eu profiad proffesiynol o weithio o fewn y canolfannau trochi hwyr yn ogystal â'r sgiliau penodol sydd ganddynt o fewn y maes trochi hwyr a'r cyswllt gyda rhieni.

Yn rhan o'r holiadur roedd cyfle i rieni a gwarcheidwaid nodi a fyddent yn fodlon cymryd rhan mewn cyfweliad pellach er mwyn cael cyfle i ehangu ar yr atebion a ddaeth yn yr holiadur. Roedd bwriad hefyd cysylltu gyda 3 o deuluoedd i gynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb er mwyn llunio astudiaethau achos er mwyn rhannu profiad penodol y teuluoedd. Roedd adran yn llythyr cyflwyno'r holiadur yn holi a hoffai'r teuluoedd gymryd rhan pellach drwy gael cyfweliad. Roedd cyfle i deuloeodd adael eu manylion cyswllt neu fel arall yr oedd yr ymatebion yn anhysbys.

Ystyriwyd cynnal grwpiau ffocws ar gyfer cwestiynu pellach ond yr oedd posibiliad y byddai'r teuluoedd yn llai parod i rannu o'u profiadau yn agored mewn amgylchedd lled gyhoeddus, er, weithiau y mae grwpiau ffocws yn gallu ennyn trafodaeth a chynorthwyo unigolion i gyfrannu drwy ymateb neu gadarnhau sylwadau eraill.

Cyfathrebwyd drwy e-bost yn gyntaf i gysylltu â 'r gweithlu gan anfon e-bost yn cynnwys dolen i'r holiadur electronig i'r canolfannau trochi ac i'r gweithlu. Cafwyd caniatâd gan yr athrawon priodol i anfon yr holiaduron ymlaenat y gweithlu ac at y rhieni yn ogystal. Unwaith eto, roedd yr ymatebion i'w derbyn yn anhysbys oni bai fod cyfranogion yn dymuno rhannu eu manylion ar gyfer cyfweliadau pellach.

Er mwyn cynnal cyfweliadau dilynol, yn ogystal â chwrdd wyneb yn wyneb, defnyddiwyd cyfuniad o Microsoft Teams a Zoom ar gyfer cyfweliadau rhithiol er mwyn cadw at gyfyngiadau a rheoliadau Cofid y cyfnod ymchwilio. Roedd y dull hwn yn

golygu cymryd ychydig iawn o amser allan o ddiwrnod gwaith, a byddai'r cyfranogion wedi cytuno i gymryd rhan drwy ymateb i ran benodol yn yr holiadur. Roedd y cyfranogion yn cynnig eu manylion cyswllt yn yr holiadur er mwyn cytuno i gyfweliad pellach gyda'r ymchwiliwr.

Y cefndir a'r rhesymeg dros ddewis y dull

Penderfynwyd dewis y dull arolwg ac astudiaeth achos hwn er mwyn gweld y cydberthynas rhwng y cymhellaint o fewn y polisi canolog a'r gweithredu ar lawr gwlad yn lleol ac a oedd yr awydd mewn strategaeth genedlaethol yn cyrraedd y dysgwyr a'u teuluoedd drwy bolisi a phroses gweithredu'r awdurdodau lleol.

Byddai cael adborth gan amrywiaeth o rieni a gwarcheidwaid o wahanol ardaloedd yn y De-Ddwyrain a gwahanol swyddogaethau o fewn y gweithlu yn rhoi cyfle i glywed trawstoriad barn a fyddai'n gallu rhoi llun gweddol fras o'r sefyllfa. Ond roedd rhaid hefyd bod yn barod ar gyfer niferoedd isel o ymatebwyr (gan nad oedd y boblogaeth mor niferus ag y tybiai'r ymchwilydd ar gychwyn y gwaith) a'r posibilrwydd na fyddai'r niferoedd is yn gynrychioliadol o farn gyffredinol y boblogaeth dan sylw.

Gwerthusiad o'r dull a'r cyfyngiadau

Nid oes modd anwybyddu'r ffaith bod y cyfnod ers mis Mawrth 2020 wedi bod yn un heriol iawn ac yn ddigynsail gyda pandemig Cofid-19. Bu nifer o heriau ymarferol er mwyn cael mynediad at staff a rhieni a gwarchodiaid mewn ysgolion er mwyn gallu rhannu'r holiadur a chynnal cyfweliadau. Bu'n gyfnod heriol i gynnal unrhyw fath o ymchwil ansoddol gyda chyfranogwyr yn y cnawd. Gyda'r cyfnodau'r clo, nid oedd

modd ymweld ag unrhyw ysgol o ganlyniad i asesiadau risg ysgolion yn gwahardd ymwelwyr, a bu'n rhaid addasu'r holiadur o fod yn un ar bapur i fod yn un ar-lein.

Aethpwyd ati i astudio dulliau trosglwyddo holiadur o'r papur i Microsoft Forms.

Mae Microsoft Forms hefyd yn cynnig gwasanaeth creu graffiau yn awtomatig pan fod data meintiol ar gael o fewn cwestiwn holiadur sydd, felly, yn hwyluso gwaith yr ymchwiliwr wrth rannu/ ddarparu canfyddiadau'n weledol mewn adroddiad ymchwil fel hwn.

15 teulu oedd maint y boblogaeth gyfan rhwng y ddwy ysgol. Dychwelwyd 8 holiadur gan deuluoedd. 14 oedd maint y boblogaeth bosibl yn yr arolwg o'r gweithlu. Derbyniwyd 10 holiadur yn ôl gan y gweithlu. Cynhaliwyd 2 gyfweliad rhieni ac 1 gydag aelod o'r gweithlu.

Heriau'r ymchwil

Ymddengys i'r ymchwilydd ddewis maes ymchwil a ddatblygodd yn gyflym iawn yn ystod cyfnod y gwaith. Rhyddhawyd dau bapur ymchwil arwyddocaol gan Lywodraeth Cymru a wnaeth lawer i gyflymu proses cau'r bwlch rhwng yr awydd cenedlaethol a'r gweithredu lleol ar ddiwedd y cyfnod ysgrifennu. Ni effeithiodd hynny ar y boblogaeth bosibl yng nghyfnod yr ymchwil hwn ond gyda'r datblygiadau arfaethedig a nodwyd yn y CSCAu drafft mi fydd poblogaeth y gweithlu hwn yn debygol o gynyddu'n sylweddol dros gyfnod y cynlluniau hyn.

Nodwyd fel ystyriaethau pellach yn un o’r adroddiadau:

> “Roedd llai o dystiolaeth ar gael mewn perthynas â pha fethodolegau neu ymyriadau sy'n ymwneud ag arferion trochi hwyr effeithiol mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Gallai ymchwil yn y maes hwn ddarparu gwybodaeth werthfawr am y ddarpariaeth trochi hwyr bresennol sydd ar gael yng Nghymru, ynghyd â pha mor effeithiol yw'r ddarpariaeth bresennol, a sut y gellid cynyddu'r ddarpariaeth hon dros amser, sef un o nodau Cymraeg 2050. “ (Rhys 6.4,tt. 42 2021)

Pery hyn i’r ymchwilydd amau gwerth yr ymchwil. Ond dyfalbarhaodd i ganfod gwerth a sylwedd o fewn ymatebion y rhieni a’r gweithlu er mwyn medru cynorthwyo gyda chanfyddiadau’r ymchwil hwn ac i ddatblygu ymhellach y corff o ymchwil yn y maes allweddol a chyfredol hwn. Fel y mae Rhys (2021) yn nodi:

> “Mewn adroddiad ar gynlluniau peilot trochi Cymraeg ac addysgu iaith dwys mewn ysgolion, daw Estyn (2006) i'r casgliad bod cael cefnogaeth gan rieni yn ffactor allweddol i blant ddysgu Cymraeg yn llwyddiannus, a'i bod yn bwysig cael cysylltiadau agos rhwng ysgolion a rhieni. Mae Johnstone (2002) yn nodi bod cael cefnogaeth gan rieni yn bwysig er mwyn cyfleu negeseuon allweddol am drochi hwyr i rieni. Gall rhieni gefnogi mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft drwy helpu gydag I1 gartref, rhoi anogaeth i'r plant mewn perthynas â'r profiad trochi a chefnogi ymdrechion yr ysgol, megis datblygu adnoddau neu helpu i ddarparu gwybodaeth i ddarpar rieni ”

PENNOD 4

CANLYNIADAU a THRAFODAETH

Adolygiad pen desg llyfrynnau mynediad i ysgolion deg awdurdod lleol y de ddwyrain

Allwedd:

Gwybodaeth Gynhwysfawr (GG) Peth Gwybodaeth (PG) Dim Gwybodaeth (DG)

Sir	Gwybodaeth am drochi canol a hwyr yn y llyfryn mynediad i ysgolion	Manylion am wneud cais i drochi canol a hwyr yn y llyfryn mynediad i ysgolion	Hygyrchedd gwybodaeth am addysg Gymraeg trochi canol a hwyr
Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent	DG	DG	DG
Cyngor Dinas Caerdydd Canolfan Canol a Hwyr ar gael yn y Sir hon	PG Noda bod yna gyfle am drochi canol a hwyr ond nid oes gwybodaeth am y dull.	PG Noda bod yna gyfle am drochi canol a hwyr ond nid oes gwybodaeth penodol am sut i wneud cais. Ond nid oedd modd cychwyn ar wneud cais heb fod yn breswylydd.	DG Noda bod yna gyfle am drochi canol a hwyr ond nid oes gwybodaeth pellach am effeithiolrwydd y dull hwn i ennyn hyder mewn rhieni.
Cyngor Caerffili	DG	DG	DG
Cyngor Dinas Casnewydd	PG Noda bod yna gyfle am drochi hwyr ond nid oes gwybodaeth am y cyfle i wneud y canol a'r hwyr. We welcome enquiries from parents wishing to transfer their child from English to Welsh-medium education. Pupils can be given	PG Noda bod yna gyfle am drochi hwyr ond nid oes gwybodaeth penodol am sut i wneud cais. Ond nid oedd modd cychwyn ar wneud cais heb fod yn breswylydd.	DG Noda bod yna gyfle am drochi canol a hwyr ond nid oes gwybodaeth pellach am effeithiolrwydd y dull hwn i ennyn hyder mewn rhieni.

	additional language support to transfer and this is usually successful.		
Cyngor Torfaen	DG	DG	DG
Cyngor Sir Fynwy Mae canolfan drochi ganol yn Ysgol Gymraeg y Ffin ers 2021	DG	DG	DG
Cyngor Rhondda Cynon Taf	DG	DG	DG
Cyngor Bwrdeistref Merthyr	DG	DG	DG
Cyngor Bro Morgannwg	DG	DG	DG
Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr	DG	DG	DG

Er mwyn sicrhau cysondeb i wneud cymhariaeth o un math o ddogfennaeth gyffredin ar draws yr holl siroedd, penderfynwyd craffu ar y llyfrynnau gwybodaeth i rieni wrth iddynt wneud cais i fynychu'r ysgol. Gellir gweld yn glir mae prin oedd y wybodaeth am drochi canol a hwyr hyd yn oed yn yr awdurdodau lleol lle y cynigir y ddarpariaeth. Ni ddiweddarodd yr awdurdodau lleol chwaith eu llyfrynnau gwybodaeth i rieni yn dilyn datganiad Llywodraeth Cymru am y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn Hydref 2021. Yn y datganiad hwnnw yr oedd cynghorau Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Torfaen, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg ymysg y siroedd oedd wedi datgan darpariaeth hwyrddyfodiaid newydd ac eto heb ddiweddaru'r llyfryn. Gellir ystyried

rhesymau am fethu â chynnwys y wybodaeth yn y llyfryn hwn yn cynnwys amseru - nid oedd yr wybodaeth yn wyddys i'r awdurdodau lleol wrth gyhoeddi'r llyfryn hwn neu efallai nad oedd y ddarpariaeth wedi ei gynllunio mewn pryd i'w rannu mewn modd ystyrlon ar adeg cyhoeddi'r llyfryn hwn.

Y rhieni

Er mwyn arddangos effaith uniongyrchol yr angen a'r galw posib am bolisi a gweithdrefn trochi hwyr, ystyriwyd perthnasedd cynnwys astudiaeth achos o brofiadau rhieni dysgwyr sydd wedi derbyn cefnogaeth trochi hwyr yn un o 3 canolfan drochi canol a hwyr pwrpasol y De Ddwyrain er mwyn edrych ar ambell agwedd yn fanylach. Yn amlwg, y mae astudiaethau achos yn gallu bod yn anodd iawn eu croeswirio, ond yn yr achosion a ddefnyddir yn yr astudiaeth achos hon, cytunodd y teuluoedd gael cynnwys er mwyn medru craffu ymhellach ar y dulliau gweithredu presennol, eu gwella gan rannu arfer dda. Yr oedd awydd gwirioneddol i sicrhau bod systemau yn cael eu datblygu fel bod y llwybr trochi canol a hwyr yn hygyrch i rieni'r dyfodol.

Yn gyntaf ceir dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiadur (Atodiad 2) a ddanfonwyd at rieni drwy law penaethiaid y canolfannau trochi ac yna edrychir ar y themâu sydd yn codi o'r ymatebion hyn. Derbyniwyd 9 ymateb i'r holiadur hwn allan o boblogaeth o 15.

Faint o'ch plant sydd wedi newid o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg?

Yn y ran fwyaf o’r ymatebion roedd naill ai 1 neu 2 o blant y teulu wedi troslgwyddo o addysg Saesneg i addysg Gymraeg.

Ym mha flwyddyn ysgol y cychwynnodd eich plentyn / plant mewn ysgol Gymraeg?

Amrywia’r flwyddyn yr ymunodd y dysgwyr â’r ysgol Gymraeg o drochi canol a hwyr. Gyda’r dosbarthiad fel a ganlyn:

1	anonymous	Year 7
2	anonymous	Year 4
3	anonymous	3 a 5
4	anonymous	6
5	anonymous	4 and 7
6	anonymous	Year 5 and Year 3
7	anonymous	Year 1
8	anonymous	2
9	anonymous	1 and 3

Trochi canol	Trochi Hwyr
11	2

Gwelir bod rhieni wedi cynnwys eu plant sydd ym mlwyddyn 1 a 2 wrth ymateb i’r holiadur hwn ac felly’n awgrymu eu bod yn cysylltu’r symud hyn gyda throchi canol er bod y dysgywr ieuengaf yn parhau i fod yn y blynyddoedd cynnar ond nid yn y dosbarth meithrin neu’r derbyn.

A allwch chi esbonio'r rhesymau pam eich bod chi'n dewis newid i addysg cyfrwng Cymraeg?

1	anonymous	School availability & benefits of speaking another language.
2	anonymous	The boys younger brother was already in Welsh education, I was learning Welsh and I didn't want the boys to miss out on learning Welsh. Realised it was a mistake not to send the boys in the first place.
3	anonymous	They moved from our home country which is French speaking to Wales and the national language in Wales is Welsh
4	anonymous	We didn't get into our preferred high school so had a total re-think of options. We have noticed a higher number of Welsh speakers and feel that being a Welsh speaker opens up job opportunities in the future. We considered Welsh language education when looking for primary school but at the time didn't feel it was the right decision. 6 years later there are more Welsh speakers so the decision felt right.
5	anonymous	Poor choice of English secondary schools in the area
6	anonymous	When our children started school we considered both Welsh and English medium schools. I am a Welsh speaker (having attended an immersion unit myself) but my husband is not. This was partially the reason for selecting an English medium school in the first instance, coupled with the fact that our nearest school at the time was English medium and very highly regarded. Had we had the option of a Bilingual school, we would have selected this without hesitation as this was always our preference, but there are no bilingual schools in Cardiff. When we moved into a new home last summer, many of the English medium schools in the area were oversubscribed so our options were limited. The school that our children now attend has both an English and Welsh medium stream, although it is not bilingual, so we felt that this was a good compromise. It also offered our children the opportunity to learn

		Welsh, which is a skill that I have occasionally regretted not giving them sooner.
7	**anonymous**	**Moved back to Wales from London and it's my (parent) mother tongue**
8	**anonymous**	**We moved from England to Wales, and as I am a Welsh speaker I wanted to give my children the opportunity to have a Welsh-medium education**
9	**anonymous**	**My wife is Welsh by birth (but not a Welsh speaker). We moved from London to Wales last summer. We wanted to fully immerse ourselves in our new community. and we knew our children would pick up the language quickly.**

Y mae'r amrywiaeth o atebion yma, gyda dim ond naw ymateb, yn dangos yr ystod o resymau a'r cymhlethdod sydd y tu ôl i ddewis rhieni dros addysg Gymraeg yn hwyrach. Yma ceir rhesymau economaidd, trosglwyddiad iaith o fewn y teulu, mamiaith, mewnfudo, trochi cymunedol ond hefyd gwelir rhesymau megis dewis cyfyng addysg Saesneg yn yr ardal, neu heriau gyda chael mynediad at ysgol Saesneg yn y lle cyntaf. Y mae canfyddiad rhieni o'r term dwyieithog yn amlygu ei hun yma yn ogystal. Ond testun traethawd arall yw hynny.

Oeddech chi'n ymwybodol bod yr opsiwn hwn ar gael?

Oeddwn

Oeddwn, ond nid oeddwn yn meddwl ei fod yn bosibl i ni.

Nac oeddwn

Digon hafal oedd atebion y cwestiwn hwn gydag un teulu ddim yn meddwl ei fod yn opsiwn iddyn nhw.

Sut clywsoch chi am yr opsiwn hwn?

Trwy'r Awdurdod Lleol

Pan wrthodwyd fy nghais am addysg cyfrwng Saesneg

Gan ffrind

Gan gydweithiwr

O wefan / llwyfan cyfryngau cymdeithasol

Arall



Yma yr oedd pwysoliad tebyg rhwng canfod yr wybodaeth am addysg Gymraeg drochi drwy'r awdurdod lleol a thrwy ffrind. Mae'n debyg y byddai gwrthod cais am addysg cyfrwng Saesneg wedi golygu cysylltiad gyda'r awdurdod lleol yn ogystal. Gwelir nad oedd dim un o'r teuluoedd wedi clywed am yr opsiwn drwy wefan neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol, sydd yn cadarnhau gwaith pen desg yr ymchwilydd nad oes digon o wybodaeth ar gael ar wefannau'r awdurdodau lleol sydd yn cyfeirio rhieni at yr opsiwn o addysg drochi canol a hwyr.

Beth oedd eich canfyddiad o addysg Gymraeg cyn i chi ddewis y llwybr hwn?

ID	Name	Responses
1	anonymous	I originally wanted my daughter to attend but I was informed that she could not go to reception/infants as she didn't go to a Welsh medium nursery. I think Welsh medium education is very beneficial and can open doors in the future, I did also have reservations about whether or not the Welsh aspect would affect the abilities and potential educational outcomes for my daughter.
2	anonymous	That it was quite elite in that it was for families who speak Welsh.

3	anonymous	Good because of quality and discipline
4	anonymous	No perceptions other than I expected all children to come from Welsh speaking families. I thought I would need to be a fluent Welsh speaker to support with homework but this isn't needed. The boys understand the work and if they need help they ask for help in English. I don't feel Newport council were supportive of changing from English language to Welsh language education, I feel they were quite negative in their attitude and tried to put us off.
5	anonymous	My children started in Welsh medium as 2yr olds but switched when the provision closed and no other available locally
6	anonymous	I am very proud to be a Welsh speaker myself and am very conscious of the benefits of bilingualism, however I have some concern over full Welsh-medium education as opposed to bilingual education. Personally, I think bilingual education is the best approach but this is not available in Cardiff. Had this been an option, my children would have been in bilingual education from the start of their school life. I think it is important to have a good grasp of both English and Welsh and I believe the best way to achieve this is through bilingual education rather than separating the two languages.
7	anonymous	Good as I went through it myself
8	anonymous	Having been through Welsh-medium education myself I always had a positive view of Welsh-medium education. I think that of children have an opportunity to become fluent in more than one language then it should be taken. However living in England there was no provision for Welsh-medium education, other than what I could offer at home.
9	anonymous	Welsh language would be used as part of the educational process.

Eto, yr oedd amrywiaeth yn y canfyddiadau cynnar am addysg Gymraeg yn amrywio. Yr oedd rhai'n ystyried taw dim ond ar gyfer siaradwyr Cymraeg yr oedd addysg Gymraeg lle yr oedd eraill yn dod i ganfyddiad bod gwell disgyblaeth a safonau mewn ysgolion Cymraeg. Ond hefyd y mae'r gair "elite" yn codi, lle y mae canfyddiad yn bodoli o hyd

bod addysg Gymraeg yn perthyn i'r dosbarth uwch. Amlygir hefyd y balchder yn medru siarad yr iaith a throsglwyddo'r Gymraeg yma hefyd a phwysigrwydd dysgu iaith y wlad y mae'r teulu yn byw ynddi yn ogystal â phrofiad personol y rhiant ei hunan.

Yma hefyd dechreuwn weld batrwm o ran cam wybodaeth a threfniadaeth weithredol gwneud cais am le mewn ysgol Gymraeg, lle y mae teulu yn cael gwybod yn gyntaf nad oes modd iddynt wneud cais gan na chafodd y plentyn addysg mewn meithrinfa neu ddosbarth meithrin Cymraeg.

A wnaethoch chi ystyried addysg Gymraeg pan oedd eich plentyn / plant yn dechrau addysg yn y blynyddoedd cynnar?

Do

Naddo

Efallai

Doeddwn i ddim yn gwybod ei fod yn opsiwn i ni



Diddorol yw sylwi yma i ddau dreian o'r ymatebwyr ystyried addysg Gymraeg i'w plant yn ystod eu cyfnod yn y blynyddoedd cynnar. Gellid dadansoddi o hyn bod gwybodaeth am addysg Gymraeg yn fwy cyffredin o fewn cymunedau erbyn hyn ond nad oedd digon

o wybodaeth ar gael i rieni wneud penderfyniad yn y cyfnod cynnar. Mae'n bosibl hefyd bod amgylchiadau'r teulu wedi newid dros y cyfnod yn ogystal neu fod ysgol Gymraeg newydd wedi agor yn yr ardal.

A welsoch chi neu a glywsoch am unrhyw wybodaeth gan yr Awdurdod Lleol yn hyrwyddo addysg drochi hwyr yn y Gymraeg ar wefan, trwy lenyddiaeth neu mewn sgwrs?

Do

Naddo

Arall

Yes	1
No	8
Other	0



Y mae'r cwestiwn hwn yn cadarnhau damcaniaeth y cwestiwn cynt nad oedd y teuluoedd hyn wedi gweld unrhyw hyrwyddo gan awdurdodau lleol am drochi hwyr.

A ydych chi wedi gweld polisi Awdurdod Lleol ar addysg drochi hwyr addysg Gymraeg?

Yn yr un modd nid oedd un o'r naw ymateb wedi gweld polisi addysg drochi hwyr ychwaith.

Beth yw eich canfyddiad o addysg Gymraeg erbyn hyn?

	Name	Responses
	anonymous	I am very pleased with how my daughter's Welsh is coming along, I am concerned about the effect it may have later on as she has taken a few months out of regular learning to learn Welsh, I am hopeful that she will still get all her high predicted grades though.
2	anonymous	That it is incredibly beneficial and really encourages an understanding of the Country and traditions too. Also that it is clearly open to everyone.
3	anonymous	Good . Because of the quality and the discipline
4	anonymous	Brilliant. Both boys are fluent thanks to the excellent immersion service at Bro Teyrnon, in Cardiff (can't recall the name)and at Gwent Is Coed
5	anonymous	It needs to be promoted more
6	anonymous	I am very pleased that my children are able to speak Welsh and have very high regard for both their school and the immersion unit. However, I still believe that bilingual education is the better option and would love to see Cardiff embrace this approach. I firmly believe that it would encourage more parents from English-speaking households to give their children the gift of the ability to speak Welsh.
7	anonymous	That it’s even more popular than before and that the standard of teaching is generally high
8	anonymous	My children' positive experiences so far have confirmed my own positive experiences as a child
9	anonymous	Welsh is used - but not solely - in the educational process.

Mae canfyddiadau’r teuluoedd o addysg Gymraeg erbyn hyn yn gadarnhaol iawn ac yn galonogol. Rhennir profiadau am safon addysgu uchel, rhuglder, cadarnhau safonau a disgyblaeth dda ac yn ogystal gwelir cydnabyddiaeth am y gwaith i addysgu diwylliant a hanes yn ogystal. Y mae hefyd sôn gan un ymatebwr am y ffaith bod yr addysg y wlad yn gynhwysol hefyd ac yn “croesawu pawb”. Y mae un ymatebwr yn nodi pryder am fod y “tu allan” i addysg. Adlewyrcha hyn y broses drochi hwyr efallai lle y mae modelau’r ysgolion hyn yn cadw’r dysgwyr gyda’i gilydd am gyfnod o dymor ac yna mae’r dysgwyr yn ymuno â phrif lif y flwyddyn unwaith eto.

Os bu newid yn eich canfyddiad o addysg Gymraeg, a allwch chi egluro beth fu'r newid hwnnw?

ID	Name	Responses
1	anonymous	N/A
2	anonymous	The change has been realising how inclusive Welsh education is.
3	anonymous	NA
4	anonymous	Yes very few children at the school come from Welsh speaking families.
5	anonymous	N/a
6	anonymous	There hasn't been a dramatic change in my perception.
7	anonymous	See above

8	anonymous	N/A
9	anonymous	More bi-lingual than solely Welsh

Mae’r newid yn y canfyddiadau yn nodi gan un eu bod yn sylweddoli pa mor gynhwysol yw addysg Gymraeg, un ymatebwr yn nodi cyn lleied o blant sydd yn dod o gartrefi lle siaredir yr iaith ac y mae un ymatebwr yn nodi’r canfyddiad o ddwyieithrwydd yn hytrach na dim ond Cymraeg.

Pe bai plant eich ffrindiau mewn addysg cyfrwng Saesneg, a fyddech chi'n argymell addysg drochi hwyr yn y Gymraeg iddynt?

ID	Name	Responses
1	anonymous	Too early to say, it would depend on the circumstances etc.
2	anonymous	Yes
3	anonymous	It depends
4	anonymous	Yes. Definitely. However I think the primary schools in Newport are in the wrong locations. Parents on higher incomes living in the more expensive areas don't have a Welsh language primary school in walking distance, all the schools are in poorer areas which is off putting to parents.
5	anonymous	Yes
6	anonymous	Yes

7	anonymous	Yes, absolutely
8	anonymous	Most definitely. I have already recommended it to other friends moving to Wales. If you can give your children the option to learn 2 languages fluently then you should definitely take yhe opportunity.
9	anonymous	Yes

Fe wnaeth saith o’r naw ymatebwr nodi y byddant yn argymell addysg drochi hwyr i’w ffrindiau. Ymysg yr atebion nododd un ymatebwr eu bod yn ystyried bod ysgolion Cymraeg yng Nghasnewydd yn y mannau anghywir ac nad yw rhieni o incwm uwch yn ystyried bod addysg Gymraeg yn opsiwn iddyn nhw gan nad yw’r ysgolion o fewn cyrraedd cerdded i’r ardaloedd mwy cefnog.

A fyddech chi'n argymell cychwyn eu plant mewn addysg Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar i rieni eraill yn y dyfodol?

ID	Name	Responses
1	anonymous	Yes. I have two 1 year olds and they will attend welsh medium mainstream from nursery onwards.
2	anonymous	Yes
3	anonymous	Yes
4	anonymous	Yes.

5	anonymous	Yes
6	anonymous	It would depend on the circumstances, however I would always advocate for bilingual education.
7	anonymous	Yes!
8	anonymous	Again most definitely, and if we had been living in Wales when my child started school we would have certainly sent her to a Welsh school. My youngest child who is due to start school I September is already in the Welsh meithrin/pre school
9	anonymous	Yes

Nid oedd amheuaeth y byddai bron pob un ymatebwr wedi cychwyn addysg eu plant yn y blynyddoedd cynnar gydag un yn nodi y byddai'n ddibynnol ar amgylchiadau ac un arall yn nodi'r elfen addysg ddwyieithog. Nid yw'r glir beth olyga'r ymatebwr gyda hyn. O'r ymatebion cynharaf gan yr un ymatebwr gellid dadansoddi bod yna awydd i weld addysg drochi rannol neu ddwy ffordd o bosibl? Nid oedd y cwestiynau wedi caniatáu i ddealltwriaeth yr ymatebwyr o'u diffiniad hwy o addysg drochi gael ei gadarnhau. Roedd hyn yn wendid gan yr ymchwilydd o fod wedi methu â gofyn y cwestiwn hwn.

Cyfweliadau Rhiant A a B

Pan oedd rhieni Dysgwr A yn chwilio am ysgol uwchradd i'w plentyn, a oedd wedi treulio 6 mlynedd mewn ysgol cyfrwng Saesneg, yr oedd nifer o heriau yn eu hwynebu. Nid oeddynt yn hollol hapus gyda'r ysgol uwchradd Saesneg oedd yn y dalgylch ar gyfer addysg ac yr oedd ysgol a oedd yn cael ei hystyried yn well o ran cyrhaeddiad a

disgyblaeth fel arfer yn orlawn ac roedd y teulu yn byw y tu allan i'r dalgylch ac felly'n annhebygol o lwyddo gyda chais.

Rhiant A: "Digalonni yn cychwyn yn y cartref ac yna'n dod o du addysg"

Dysgwr blwyddyn 6 yn mynd i flwyddyn 7 (trochi hwyr) a dysgwr trochi canol i flwyddyn 4.

Mae gan riant A 3 o blant. Mae dau blentyn erbyn hyn yn yr ysgol uwchradd Gymraeg lleol, a'r trydydd yn yr ysgol Gymraeg cynradd. Mynychodd ail blentyn rhiant A yr ysgol gynradd Gymraeg yn rhan o raglen drochi canol yn yr ysgol honno gan gychwyn yr ysgol ym mlwyddyn 4. Mae tair iaith yn cael ei siarad ar yr aelwyd yn barod heblaw am y Saesneg a'r Gymraeg.

Yr oedd rhiant A wedi clywed am addysg Gymraeg pan oedd ei phlentyn hynaf ym mlwyddyn 3. Roedd y plentyn wedi mynd i addysg gynradd Saesneg a'r rhiant yn hapus gyda'r addysg yr oedd y plentyn yn ei dderbyn ar y pryd. Yr oedd sgwrs wedi cychwyn ymysg y rhieni ar y buarth am addysg uwchradd a'r mamau'n trafod yr opsiynau ar gyfer eu plant. Ar y pryd nid oedd yr ysgol uwchradd Saesneg lleol yn cael ei hystyried yn ddigon safonol i'r rhiant wedi edrych ar adroddiad diweddaraf gan Estyn ac felly penderfynwyd yn syth edrych am opsiynau eraill.

Yr oedd ysgol arall uwchradd cyfrwng Saesneg yn weddol agos, ond y tu allan i'r dalgylch ac yr oedd yn debygol o fod yn llawn, fel yr oedd bob blwyddyn i ddisgyblion ei hardal hi. Clywodd y rhiant wrth y rhieni eraill am ysgol uwchradd Gymraeg y dalgylch

ond ei fod yn bell i'r plant i deithio. Er hyn, cafodd rhiant A'r sgwrs gyda'i chymar gan nodi ei bod yn awyddus i ystyried symud y plentyn hynaf i addysg Gymraeg y pryd hwnnw. Roedd wedi ceisio dwyn perswâd trwy nodi y byddai cludiant am ddim yn cael ei ddarparu hefyd. Ond nid oedd y cymar yn awyddus i greu gymaint o newid i'r plentyn. Roedd rhiant A yn sylweddoli os oedd y plentyn i symud i ysgol Gymraeg, yr oedd angen cychwyn ar y trochi cyn gynhared ag yr oedd yn bosibl. Dywedodd:

> "I already know three languages. My third language is English and there's a fourth language in my family. I thought that the children's language was the most important thing to get right from an early age for the children and I know that children can adapt to new languages very easily. Welsh medium education I think is also a better education. "

Roedd gan y rhiant brofiad byw o amlieithrwydd a'i fanteision ac yr oedd hyn yn dylanwadu ar ei hawydd i weld os oedd addysg Gymraeg yn opsiwn gwirioneddol i'w phlant.

> "I had also been told in the parent group that Welsh medium education was only for families who had some kind of background with Welsh" .

Ond nid oedd y ffactorau uchod wedi rhwystro'r rhiant rhag edrych ymhellach i'r posibiliad hwn. Roedd rhiant A wedi siarad gyda'i phartner eto gan nodi ei bod yn awyddus i edrych ar yr opsiwn o symud y plentyn ond nid oedd y cymar yn hapus i fwrw ati gyda'r newydd. Bu rhiant A yn chwilio am wybodaeth bellach er mwyn dwyn perswâd pellach ar ei chymar.

> " Then again I searched for more information about it [Welsh medium education] again I went to find out about it on the website. But there's not much information about it on the website unfortunately for us."

Penderfynodd rhiant A siarad gyda phennaeth yr ysgol gynradd Saesneg i gael cyngor. Dywedodd:

> "I explained the idea and he was shocked as well and said that's the stupidest decision you will have ever made if you do it. So discouragement started at home and then gradually from education. But then the headteacher realized that he had not responded appropriately to my question. "

Y mae' rhiant A yn nodi i'r pennaeth geisio ateb ei chwestiynau am addysg Gymraeg ond nad oedd ganddo'r atebion.

Pan yr oedd plentyn rhiant A ym mlwyddyn chwech a'r amser wedi dod i wneud cais am addysg uwchradd, yn dilyn sgwrs gan aelod o blaid wleidyddol leol, penderfynodd y cymar bod newid i addysg Gymraeg yn syniad da. Daeth hyn fel syndod i riant A ar ôl y gwaith a wnaeth yn ceisio ei berswadio dwy flynedd yng nghynt.

Pan ddaeth yn amser i wneud cais ar gyfer yr ysgol uwchradd, ac yn dilyn cais y teulu i addysg Gymraeg, cysylltodd swyddog o'r awdurdod lleol y teulu i nodi eu bod yn meddwl i'r teulu wneud camsyniad gan ofyn i'r teulu a hoffent ailfeddwl eu dewis. Cysylltwyd â'r teulu tair gwaith i ailystyried gan gynnig opsiynau addysg uwchradd Saesneg o hyn. Roedd rhiant A yn ceisio esbonio i'r awdurdod lleol ei bod yn deall beth yr oedd yn gofyn ei wneud ond nid oedd yr awdurdod lleol yn deall eu bod yn deall.

Cafodd y rhiant a'r dysgwr wahoddiad i "brofi" addysg Gymraeg drwy fynychu ambell i wers mewn ysgol gynradd leol Gymraeg. Dywed rhiant A:

> "We knew all these steps. We knew that Welsh medium education meant all lessons in Welsh and it was very frustrating because we knew the process, but everybody made out that we didn't know what we were asking for."

Bu'n rhaid i'r rhieni fod yn benderfynol iawn er mwyn darbwyllo'r awdurdod lleol i alluogi eu plentyn drosglwyddo o addysg Saesneg i addysg Gymraeg. Noda'r rhiant i newid arwyddocal ddigwydd unwaith daeth y rhiant i gyswllt gyda phennaeth yr ysgol uwchradd Gymraeg gan i'r broses gyflymu a chadarnhawyd le i'r disgybl mewn canolfan drochi hwyr mewn awdurdod lleol cyfagos gan gofrestru yn yr ysgol uwchradd Gymraeg leol. Byddai'r disgybl yn treulio tymor yn derbyn addysg drochi ddwys yn y ganolfan drochi hwyr ac yn treulio cyfnodau bob wythnos hefyd yn dod i adnabod ei gymhreiriaid yn ei ysgol gartref.

Yr oedd hyn yn cadarnhau'r ffaith bod y dysgwr oedd yn 11 oed yn cynnig her ychwanegol gan nad oedd cais wedi dod o'r blaen o fewn yr awdurdod lleol i drosgwlyddo dysgwyr o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i Ysgol uwchradd Gymraeg.

Her arall y sefyllfa hon oedd mai Ysgol Uwchradd newydd sbon oedd yr ysgol a oedd heb ei sefydlu eto. Nid oedd strwythurau wedi eu gosod ar gyfer derbyn dysgwyr trochi hwyr. Yr oedd yr awdurdod lleol a'r ysgol yn awyddus i sefydlu darpariaeth yn y dyfodol ond nid oedd y ddau barti wedi ystyried cais mor gynnar i ddarparu ar gyfer dysgwyr trochi hwyr.

Mae gan rhiant A ddau o blant arall. Yr oedd un dysgwr o oed cynradd ac wedi cychwyn mewn ysgol Saesneg hefyd gyda'r ieuengaf heb fod yn ddigon hen i fynychu addysg statudol.

Penderfynodd y rhieni, wrth symud y plentyn hynaf i symud yr ail blentyn yn ogystal i ysgol gynradd Gymraeg. Roedd gan yr ysgol weithrdrefnau'n barod i gefnogi trochi canol ond yr oedd yn anffurfiol. Wrth siarad am y profiad ar gyfer yr ail blenyn o'i gymharu â'r plentyn cyntaf dywedodd y rhiant ei fod yn broses llyfn iawn.

> " We were mentaly prepared for the same type of difficult process but once the headteacher from the primary school an secondary school got involved then they knew we were serious. It [the transition] was very smooth."

Rhiant B: "Y peth gorau a wnaethon ni fel teulu"

Daw rhiant B yn wreiddiol o Loegr ac ni ddaeth i Gymru tan y flwyddyn 2000 pan gwrddodd â'i gŵr yn y brifysgol a dod i fyw i Gymru ato. Hanna ei gŵr o Gymru ond nid oedd yn arddel ei Gymreictod. Saesneg yw iaith y cartref ac y mae rhiant B yn siarad pedair iaith arall. Dyweda am ei gŵr:

> "His family were Welsh by origin and when he was born, they had moved to England. They moved back to Wales when he was eight. He doesn't speak Welsh at all. He didn't have any sense of belonging to Wales either. His father did.His father is very proudly Welsh and hids grandparents. But he was the opposite, having been born in England, he struggled to fit in and found that he struggled at primary school having come from England into Wales."

Roedd profiad rhiant B yn wahanol iawn lle nid oedd wedi bod i Gymru cyn iddi gwrdd â'i gŵr. Dechreuodd y pâr fagu teulu a ganwyd efeilliaid ac yna plentyn arall. Bu rhiant B yn mynychu grwpiau amrywiol yn y gymuned i fabanod a'u rhieni gyda'r plant. Nid oedd wedi clywed am fodolaeth y Gymraeg tan i rhiant B fynychu grŵp cerddoriaeth yn ei chymuned. Nid oedd yn ymwybodol bod y grŵp yn cael ei gynnal yn y Gymraeg, ond y grŵp hwn a sbardunodd rhiant B i ymchwilio ymhellach i'r Gymraeg.

Roedd y teulu'n byw mewn ardal yn ne ddwyrain Cymru ond roedd angen tŷ yn fwy arnynt ac angen symud er mwyn gwella hwylustod teithio i'r gwaith. Symudodd y teulu pan oedd y plant yn barod i gychwyn yn yr ysgol. Ystyriodd y rhieni addysg Gymraeg yn gynnar wrth gychwyn y broses i wneud cais ond gwnaethant gais am addysg Saesneg. Dyweddodd rhiant B mai'r prif reswm dros wneud hyn oherwydd nad oeddynt hwy'n siarad yr iaith ac nad oedd yn ddewis gwirioneddol iddynt hwy. Doedden nhw hwb chwaith gwrdd ag unrhyw rhiant oedd â phrofiad uniongyrchol o addysg Gymraeg. Darllenwyd ychydig wybodaeth am addysg Gymraeg ond yn y diwedd cais am addysg Saesneg a wnaethpwyd. Dywed rhiant B:

> "We debated between English and Welsh and we made the wrong choice - and I know that now. We went for xx school because none of us nor anyone we know has experience of Welsh Medium education and we had no one to ask. Where we went wrong I think is where we thought as the school was within a walkable distance, we thought the children would get to know others in the local area. Unfortunately what we didn't bargain for was that we didn't like the school so when it came to the youngest's time to start school we decided to apply for Welsh Medium after speaking with another parent at a local gym group."

Mae rhiant B yn nodi y busai wedi elwa o fedru trafod gyda rhieni eraill oedd wedi cael profiad o addysg Gymraeg wrth iddi wneud y dewis.

> " If I'd known someone whose children were in Welsh medium education it would have given me a more balanced view as to what it was like".

Wrth drafod beth fyddai wedi eu helpu nhw fel teulu i wella'u dealltwriaeth nhw ac i wneud penderfyniad cynharach i ddanfon eu plant i addysg Gymraeg ar gyfer teuloedd y dyfodol mae'r rhiant yn cynnig y gallai ymwelyddion iechyd wedi bod o gymorth pellach gan rhannu gwybodaeth am addysg Gymraeg wrth iddynt wneud eu hymweliadau cynnar gyda rhieni.

Roedd bwlch hefyd yn ôl rhiant B yn y wybodaeth am ddarpariaethau cyn ysgol a chylchoedd meithrin a oedd yn bwydo'r ysgolion Cymraeg yn ogystal. Nododd am ei phrofiad yn teimlo "ar goll" yn dilyn gorffen y cyfarfodydd ymgysylltu gyda'i hymwelydd iechyd ar ôl tair blynedd cyntaf y plentyn.

Dechreuodd rhiant B y broses i symud yr effeilliaid i addysg Gymraeg pan oeddynt yn 8 oed (blwyddyn 4). Roedd y rhiant wedi cychwyn dysgu'r Gymraeg ei hun hefyd gan bod ei phlentyn ieuengaf wedi cychwyn mewn ysgol Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar ac felly roedd y rhiant yn cefnogi'r dysgu yn y cartref yn ogystal. Roedd yn awyddus i'r effeilliaid gael yr un profiad a'r ieuengaf. Nid oedd yn ymwybodol bod troslgwyddo hwyrach i addysg Gymraeg yn bosibl.

> "X had picked up the language so quickly in nursery. I had started learning [Welsh] myself and was enjoying it and I thought, this is silly that they [older children] are missing out on the skill. And once you've got a child in Welsh education you realize how inclusive it is and thats what we hadn't known about. It doesn't exclude the families that don't speak Welsh at home, it makes them feel just as welcome, and what I loved was, I didn't really know anything about Welsh culture or anything like that. An then I started to learn it all through the language. "

Noda rhiant B bwysigrywdd defnyddio'r iaith y tu hwnt i'r dosbarth yn ogystal drwy nodi rhai gweithgareddau teuluol a drefnwyd gan y ganolfan dysgu Cymraeg lleol lle trefnwyd weithgareddau i'r teulu yn y gymuned.

Noda rhiant B i bennaeth yr ysgol fesur datblygiad ieithyddol yr effeilliaid drwy ofyn cwestiynau iddynt ar eu diwrnod cyntaf yn yr ysgol o flaen y rhiant ac yna'r un cwestiynau ar ôl tri mis ac yr oedd y rhiant wedi eu rhyfeddu eu bod wedi cael

anhawster mawr y tro cyntaf ond erbyn diwedd y cyfnod o dri mis roeddynt yn gallu ateb y cwestiynau yn ddirwystr.

Roedd yr ysgol wedi defnyddio cymorth athro i wneud gwaith ymyraethol gyda'r efeilliaid gan gadw cyswllt gyda'r dosbarth a'r athro dosbarth hefyd. Nid oeddynt yn rhan o ganolfan drochi ar y pryd ond wedi derbyn cymorth dwys penodol.

Nododd rhiant B bod yn amlwg i'w plant dderbyn eu haddysg drochi ganol yn yr amgylchedd a'r gefnogaeth orau posibl er mwyn iddynt gael y cyfle gorau i gaffael yr iaith yn ddwys mewn cyfnod mor fyr. Yr oedd bod mewn ysgol Gymraeg lle yr oedd yr ethos i'w deimlo a'r iaith i'w chlywed, ym mhob rhan o'r ysgol, yn bwysig iawn i hyn ddigwydd.

Themau cyffredin a godir gan rieni A a B:

- Safonau addysg yn bwysig i rieni
- Canfyddiad rhieni o addysg Gymraeg yn bwysig - mae angen esbonio addysg Gymraeg yn well.
- Anghydweld rhwng rhieni o fewn teulu yn gallu achosi tensiwn
- Dewis drwy wybodaeth gynhwysfawr yn beth pwysig
- Diffyg ymwybyddiaeth gan y sector Saesneg o drochi hwyr yn llesteirio rhieni i drosglwyddo
- Cyfrifoldeb ar yr Awdurdodau Lleol i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr
- Pryder ar ochr yr Awdurdod lleol am y broses o drochi a phryder ar ochr y rhieni nad oedd yr awdurdod lleol yn fodlon credu eu bod yn gwybod beth oedd y broses
- Profiadau addysg rhieni yn blant yn dylanwadu ar y dewis
- Pwysigrwydd profiadau cynnar cymunedol i blant a'u rhieni yn y Gymraeg
- Cyfnodau allweddol bywyd teuluoedd, gwybodaeth gyflawn yn bwysig
- Dylanwad dewisiadau rhieni eraill ar benderfyniadau rhieni
- Profiad rhieni plant mewn addysg Gymraeg yn bwysig wrth i rieni newydd wneud y penderfyniad

- Addysg drochi gynnar yw’r opsiwn gorau ond y mae angen yr opsiwn hwyr ar gyfer sefyllfaoedd megis teuluoedd yn dod i fyw i Gymru, teuluoedd ddim yn ymwybodol bod addysg Gymraeg ar gael i bob plentyn
- Angen i ymwelyddion iechyd fod â’r wybodaeth lawn am addysg Gymraeg a’r cylchoedd meithrin
- Angen system i gynorthwyo rhieni i wybod am y dewisiadau cynnar yn eglurach.
- Mae dysgu iaith yn arwain at ddysgu am ddiwylliant

PENNOD 5

Casgliadau ac argymhellion

Nid oes modd dadlau bod awydd Llywodraeth Cymru i gynyddu pwyntiau mynediad i ddysgwyr gyrchu addysg Gymraeg yng Nghymru wedi amlygu'n fwy arwyddocaol dros y ddwy flynedd ddiwethaf nag erioed. Gyda'r angen i awdurdodau lleol nodi datganiad clir ynghylch sut y byddant yn darparu ar gyfer addysg i hwyrddyfodiaid yn eu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, y mae hyn wedi gorfodi awdurdodau lleol i ymateb yn benodol i hyn drwy feddwl ac ystyried sut y maent hwy am ddiwallu anghenion dysgwyr canol a hwyr i'r Gymraeg (Young 2021).

Ond dengys yr ymchwil hwn dystiolaeth mewn un ardal awdurdod lleol o'r bylchau sydd yn parhau i lesteirio'r mynediad hwn yn y camau olaf i gau'r cylch. Wrth i holl awdurdodau lleol barhau i weithredu gyda chylchoedd newydd y CSCAau y mae'n gyfle i gau'r cylch cynllunio hwnnw. Mae angen ymchwil pellach i weld a yw'r bylchau hyn yn bodoli mewn awdurdodau lleol yn ogystal, ac yna ymateb i'r bylchau hynny'n bwrpasol.

Cynigir isod gylch cynllunio posibl er mwyn sicrhau nad yw'r camau hyn yn cael eu hesgeuluso. Rhaid ystyried addysg drochi canol a hwyr o fewn y cyd-destun llawnach adysg drochi, gan gydnabod fel y cydnabyddir yn helaeth taw cychwyn yn y trochi cynnar yw'r cyfnod delfrydol i gaffael iaith neu yn wir ieithoedd ychwanegol.



Ffigur 3

Yr oedd comisiynu dau adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar drochi hwyr yn ystod 2021 ac yn enwedig y datganiad am gyllid o £2.2 miliwn i ymateb i'r anghenion ieithyddol ôl-Cofid 19, wedi cynorthwyo i ail ystyried capasiti cyllidol awdurdodau lleol i gynllunio'n fwriadus ar gyfer hyn am y tro cyntaf, i rai siroedd y de ddwyrain.

"Damwain a hap"

O'r ymchwil a gynhaliwyd y mae rhieni'n parhau i "ddarganfod" addysg Gymraeg yn hytrach na sylweddol ei fod yn rhan o'r cynnig diofyn. Y mae amgylchiadau rhieni yn dylanwadu ar eu darganfyddiad o addysg Gymraeg yn ogystal, fel y gwnaeth rhiant A

nodi pan nad oedd addysg uwchradd Saesneg yn yr ysgol ddewisol y tu allan i'w dalgylch fod yn opsiwn iddynt fel teulu.

Yn ei gyfrol Immersion Education - lessons from a minority language context gan Pádraig Ó Duibhir (2018) , y mae'n agor y rhagair drwy nodi iddo ddod ar draws yr iaith Wyddeleg ar hap

> *"When I reached the age of four and it was time for me to start school, my parents discovered to their dismay that places in the local school were oversubscribed and there was no room for me. Fortunately, there were places available in an all-Irish school close by and I attended that school for just three years before transferring to an English-medium school. This proved to be a formative experience for me that gave me not only an excellent basic competence in Irish but also an interest in and enthusiasm for the language that I have carried throughout my personal and professional life."*

Y mae'n amlwg felly nad yng Nghymru yn unig y mae hyn yn digwydd ac y mae'n gyffredin mewn gwledydd eraill lle y mae ysgolion cyfrwng yr iaith fwyafrifol yn orlawn, mae'r rhieni'n edrych am opsiynau amgen yn lleol er mwyn cadw lle yr addysgir y plant o fewn cymuned y plentyn.

Damwain hapus ac yn achos yr awdur a nifer o rieni a tebyg iddo ar draws Cymru, damwain lwyddiannus. Ond a oes modd i gynllun Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050 gynnal parhau'r risg o efallai y dônt efallai ddim? A ddylai addysg mewn iaith leiafrifol fel y Wyddeleg yn achos Pádraig neu'r Gymraeg yn achos rhieni Cymru fod yn ddamweiniol?

Tra bod yr awydd cenedlaethol yno'n glir, nid yw hyn yn ddigon. Y mae angen i'r awydd hwn wreiddio mewn gweithredu lleol. Y mae cyfle gwirioneddol gydag ail gylch y CSCA a dyfodiad Cwricwlwm i Gymru i weddnewid addysg yng Nghymru a sicrhau mwy o gyfleoedd hwyr i ddysgwyr. Y mae astudiaethau'r gorffennol wedi nodi'r angen i fod yn fwy cyfundrefnol wrth gynllunio trochi hwyr. Bydd abwyd y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn siŵr o wneud gwahaniaeth cychwynnol ond rhaid i'r foronen hon nid yn unig ymddangos yn flynyddol o hyn allan ond rhaid i'r effaith y mae polisi hygyrch i hwyrddyfodiaid fod yn foronen ynddo'i hunan fel bod Awdurdodau Lleol yn gweld yr effaith a hyn yn cyfrannu at ddyhead llywodraeth ganol.

Y mae angen datblygu gweithlu arbenigol o fewn y maes trochi iaith hwyr. Nododd Cen Williams (2002) hyn yn glir yn ei ddadansoddiad yntau yn dilyn ei ymchwil ym Maes Garmon ac fe welwyd yn glir o'r ymatebion a ddaeth gan y gweithlu presennol fod yna ddiffyg arbenigedd ymysg y gweithlu presennol ar gyfer y dull arbenigol hwn o addysgu iaith.

Cymraeg fel iaith ychwanegol

Un peth yw nodi dyhead mewn polisi. Peth arall yw galluogi'r dyhead honno i gael ei gwireddu ar lawr gwlad. Mewn meysydd rheoleiddiol fe welwn fframwaith strwythuredig ar gyfer y maes ac ar gyfer sicrhau safonau penodol. Mae'r ACG yn rheoleiddio'r maes gofal plant . Nid cynnig a wna'r ymchwilydd am strwythur caeth ar y maes hwn. Ond efallai y gellid ystyried fframwaith Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) (EAL) ar gyfer y Gymraeg (CIY) (WAL). Nodwyd yn y cyfweliadau gyda'r gweithlu bod yna ddiffyg

dealltwriaeth gyda'r gweithlu o fewn maes SIY o arwyddocâd CIY a bod yna densiwn pan ddaw dysgwyr sydd angen SIY a CIY.

Argymhellion

1. Y mae'n amlwg fod angen gwella ar ddulliau hyrwyddo addysg Gymraeg yn yr ardaloedd hyn ac nid yn unig ar gyfer trochi hwyr ond hefyd ar gyfer trochi cynnar. O brofiadau'r rhieni a'r gweithlu, y mae angen system eglurach i sicrhau bod addysg Gymraeg yn rhan graidd o'r cynnig lleol a bod y broses ymgeisio yn amlwg, yn hygyrch ac yn gynhwysol.
2. Mae angen mwy o ymchwil yn y maes hwn yng Nghymru er mwyn medru rhannu arferion da a rhannu llwyddiannau'r safonau iaith ac addysg ar draws y cwricwlwm. fyddai yn cynorthwyo gyda'r hyrwyddo. Byddai'r rhiant A a B yn llysgenhadon ardderchog i'r dull hwn.
3. Byddai ymchwilio i greu fframwaith i bennu model ar gyfer gwahanol ardaloedd yn ôl angen ieithyddol, yn cynorthwyo gyda'r cyfnod nesaf lle y mae awdurdodau lleol newydd am gychwyn eu canolfannau trochi am y tro cyntaf.
4. Mae rhieni'n nodi'r angen i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol ac felly dylid meithrin partneriaethau gyda Mudiad Meithrin, yr Urdd, y Mentrau Iaith Lleol, y Ffermwyr Ifanc, yr Eisteddfod Genedlaethol ac unrhyw fudiad neu gymdeithas sydd yn medru cynnig cyfleoedd ehangach i alluogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd tu hwnt i furiau'r ysgol.
5. Y mae angen model gyllido eglur a hirdymor yn ogystal fel nad yw'r ddarpariaeth yn dod i ben yn sydyn. Crea hyn sicrwydd a hyder mewn darpariaeth i rieni ac i'r gweithlu.

PENNOD 6

Cyfeiriadau

Gwefannau a Dogfennau'r Llywodraeth

Llywodraeth Cymru. (2011). Arolwg o'r Gwasanaeth Cymorth Iaith Gymraeg i Ysgolion Gwleir yn: https://llyw.cymru/arolwg-or-gwasanaeth-cymorth-iaith-gymraeg-i-ysgolion

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Gwelir yn https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/resources/enacted/welsh

Llywodraeth Cymru. Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (2017) Gwelir yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

Llywodraeth Cymru. Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21 (2017) Gwelir yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/cymraeg-2050-ein-cynllun-ar-gyfer-2017-i-21.pdf

Adroddiad: technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050 (2017) Gwelir yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/amcangyfrifon-siaradwyr-cymraeg-2011-i-2050-adroddiad-technegol.pdf

Llywodraeth Cymru. Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21 (2017) Gwelir yn https://llyw.cymru/cymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017-i-2021

Llywodraeth Cymru. Symud Cymru Ymlaen 2016–2021 (2016) Gwelir yn https://llyw.cymru/symud-cymru-ymlaen-0

Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 (2012); Gwelir yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/strategaeth-y-gymraeg-2012-i-2017-iaith-fyw-iaith-byw.pdf

Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen (2014) Gwelir yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/strategaeth-y-gymraeg-2012-i-2017-bwrw-ymlaen.pdf

Llywodraeth Cymru. Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2016) Gwelir yn https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/160310-evaluation-welsh-medium-education-strategy-final-cy.pdf

BBC Cymru Fyw, 2020. Erthygl: Pryder bod rhieni di-Gymraeg yn troi at addysg Saesneg. Gwelwyd yn https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/53171918

BERA Ethical Guidelines for Educational Research, fourth edition (2018) Cyrchwyd 9.2021https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online

Campbell, C. & Parker, A., Cymhellion Rhieni Di-Gymraeg dros Ddewis Addysg Gymraeg I'w Plant, Cylchgrawn Addysg Cymru, Cyfrol 3, Rhif 1: dim dyddiad.

Cummins, J. (1998). Immersion education for the millennium: What have we learned from 30 years of research on second language immersion? In M. R. Childs & R. M. Bostwick (Eds.) Learning through two languages: Research and practice. Second Katoh Gakuen International Symposium on Immersion and Bilingual Education. (pp. 34-47).

Estyn, (2021) Caffael yr iaith Gymraeg: Sut mae lleoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr. Mawrth 2021 estyn.llyw.cymru Cyrchwyd 1.12.2021 https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Estyn%20Welsh%20language%20acquisition%20W%284%29.pdf

Estyn. (2006). Adroddiad ar brosiectau peilot addysg drochi Cymraeg a dysgu iaith trwy ddulliau dwys mewn ysgolion. Gwelir yn https://busnes.senedd.cymru/Data/Addysg,%20Dysgu%20Gydol%20Oes%20a%20Sgiliau%20-%20Yr%20Ail%20Gynulliad/20060503/Agenda/ELLS(2)-07-06%20Papur%201%20Adroddiad%20y%20Gweinidog%20Atodiad%20D%20(Saesneg%20yn%20unig).pdf

Genesee, F**.** (2015). Myths About Early Childhood Bilingualism. Canadian Psychology/Psychologie canadienne. 56. 6-15. 10.1037/a0038599.

Genesee, F. (1983) Bilingual learning of majority-language children: The immersion experiments in review. Applied Psycholinguistics 4, 1-46.

Genesee, F. (1992) Second/foreign language immersion and at-risk English-speaking children, Foreign Language Annals 25, 199 - 213.

Genesee, F. (1987) Learning Through Two Languages: Studies of Immersion and Bilingual Education, Cambridge, MA: Newbury House.
Genesee, F., Lindholm-Leary, K. Saunders, W.M., & Christian, D. (eds) 2006 Educating English Language Learners: A Synthesis of Research Evidence, New York: Cambridge University Press.

Harley, B., Allen, P., Cummins, J. and Swain, M. (1991). The development of second language proficiency. Cambridge, UK: Cambridge University Press

Johnson, R. K., & Swain, M. (1997). Immersion education : international perspectives. Cambridge University Press.

Johnstone, R. M. (2002). Immersion in a Second Language at School: Review of the International Research. Canolfan Genedlaethol yr Alban ar gyfer Ieithoedd.

Jones, Hywel M. (2012) Darlun ystadegol o sefyllfa'r Gymraeg. Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ar gael yn:
http://statiaith.com/gwefan/pdfs/Darlun%20ystadegol%20o%20sefyllfa%20y%20Gymraeg.pdf

Jones, K., Wilson, M. (2012) Comparison of Language Immersion Models for Pupils, Ar gael yn:
https://www.gaidhlig.scot/wp-content/uploads/2021/02/Jones-Wilson-2012-Bogadh-sgoile-_CR10-01_-School-immersion.pdf

Hwb. (2020). Cwricwlwm i Gymru. Gwelir yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru

Keane A., (2018) "O. M. Edwards: Ei Ddylanwad ar y Gymraeg mewn Ysgolion", *Cylchgrawn Addysg Cymru* 20(1). Gwelwyd yn: https://doi.org/10.16922/wje.20.1.3

Leopold, W. (1939– 49/1970). Speech development of a bilingual child: A linguist's record. New York, NY: AMS Press.

Lewis, W.G. 2008 Immersion teaching in Wales: methodologies and challenges, Creating a Bilingual Wales, Cardiff: IWA.

Lewis W. G., (2003) "Addysg Gynradd Gymraeg: Trochi a Chyfoethogi Disgyblion", Cylchgrawn Addysg Cymru 12(2).

Llywodraeth Cymru. 2015 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Gwelir yn: https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html

Llywodraeth Cymru. 2017 Ffyniant i bawb − y strategaeth genedlaethol : amcanion llesiant Llywodraeth Cymru (2017) Gwelir yn: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol-amcanion-llesiant-llywodraeth

Llywodraeth Cymru. Symud Cymru Ymlaen Gwelir yn https://llyw.cymru/symud-cymru-ymlaen-0

Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2003. Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2006. Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2007. Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2010. Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2017). Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

Llywodraeth Cymru. (2008). Gwerthuso'r prosiectau i dreialu'r broses o ddysgu iaith trwy drochi ac addysgu dwys: Adroddiad gwerthuso terfynol.

Llywodraeth Cymru (2013) Y cod derbyn i ysgolion Gwelir yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-derbyn-i-ysgolion.pdf

Llywodraeth Cymru (2019) Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 Cyrchwyd 12.10.2021 https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/1489/regulation/12/made/welsh

Lewin, K. (1946) Action research and minority problems, Journal of Social Issues, 2: 34–46.

Mady, C. a Masson, M. (2018). Principals' Beliefs about Language Learning and Inclusion of English Language Learners in Canadian Elementary French Immersion Programs. Canadian Journal of Applied Linguistics. Cyf. 21 (Rhif 1)

Muñoz, C., & Spada, N. (2019). Foreign language learning from early childhood to young adulthood. In A. de Houwer & L. Ortega (Eds.), The Cambridge handbook of bilingualism (pp. 233–249). Cambridge, UK: Cambridge University Press.

Ó Muircheartaigh, & Hickey, T. (2008). Academic Outcome, Anxiety and Attitudes in Early and Late Immersion in Ireland. International Journal of Bilingual Education and Bilingualism, 11(5), 558–576. https://doi.org/10.1080/13670050802149184

Ovando, C. J. (2003). Bilingual education in the United States: Historical development and current issues. Bilingual Research Journal, 27(1), 1–24. DOI: 10.1080/15235882.2003.10162589.

Redknap, C. 2006. Addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog: camau tuag at strategaeth holistaidd. Yn: Redknap, C., Lewis, W. G., Williams, S. R. a Laugharne, J. goln. Addysg Cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bangor: Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor, tt. 1–20

Rhys, M. (2021). Trochi Hwyr a Darpariaeth Ieithyddol Ddwys: Adolygiad Cwmpasu Cyflym. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR rhif adroddiad 39/2021 Ar gael yn: https://llyw.cymru/trochi-hwyr-darpariaeth-ieithyddol-ddwysadolygiad-cwmpasu-cyflym

Ronjat, J. (1913). Le développement du langage observé chez un enfant bilingue. Paris, France: Champion.

Silverman, D. (2010) Doing Qualitative Research: A Practical Handbook. 3rd Edition, Sage Publications, London.

Thomas, H. (2010) Brwydr i Baradwys? - Y Dylanwadau ar Dwf Ysgolion Cymraeg De-Ddwyrain Cymru, Gwasg Prifysgol Cymru. Caerdydd

Williams, Cen. (2002) Ennill iaith : astudiaethau o sefyllfa drochi yn 11-16 oed. Bangor : Ysgol Addysg Prifysgol Cymru Bangor.

Williams, Cen, Lewis, G. a Baker, C. (1996) Pwyso a Mesur y Polisi Iaith. Dehongli ac Arfarnu Polisi Iaith mewn Addysg Gwynedd. Llangefni: CAI.

Williams, Colin H (2005). 1. Iaith Pawb: the Doctrine Of Plenary Inclusion,Contemporary Wales, Volume 17, Number 1, January 2005, pp. 1-27, University of Wales Press.

Morgan, I. (2002). ‘Dechreuadau’r Ysgolion Cymraeg’, yn I. W. Williams (gol.), Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939–2000, Talybont, Y Lolfa

Young, K. (2021) Addysg cyfrwng Cymraeg drwy drochi hwyr: mapio'r ddarpariaeth yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 70/2021.
Ar gael yn:
https://llyw.cymru/addysg-cyfrwng-cymraeg-drwy-drochi-hwyrmapior-ddarpariaeth-yng-nghymru

Llyfrynnau Mynediad i Ysgolion 2021-2022

Cyngor Bro Morgannwg
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Working/Education%20and%20Skills/Schools/admissions/Parental-Guide-to-School-Admissions-2021-22-W.pdf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
https://www.blaenau-gwent.gov.uk/fileadmin/documents/Resident/Schools_and_Learning/Admissions_20_21/AdmBooklet_Cym-21-22_-WF.PDF

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
https://www.caerffili.gov.uk/CaerphillyDocs/Schools/starting-school-booklet-welsh.aspx

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
https://www.merthyr.gov.uk/media/7456/canllaw-polis%C3%AFau-a-threfniadau-derbyn-ysgolion-2022-2023.pdf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
https://www.bridgend.gov.uk/media/11959/2022-2023-prosbectws-dechrau-yn-yr-ysgol-v10.pdf

Cyngor Bwrdeistref Torfaen (Saesneg ar y wefan Gymraeg)
https://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Schools-Info/Schools-Information-Booklet.pdf

Cyngor Dinas Caerdydd
https://www.caerdydd.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Gwneud-cais-am-le-mewn-ysgol/Documents/School%20Admissions%202022-23%20CY.pdf

Cyngor Dinas Casnewydd
https://www.newport.gov.uk/documents/Schools-and-Education/Schools-Admissions-Policy-20212022-FINAL-WELSH.pdf

Cyngor Rhondda Cynon Taf

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/SchoolAdmissions/relateddocuments/StartingSchoolBook202223.pdf

Cyngor Sir Fynwy
https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2021/07/StartingSchool_Cymru_2022_2023_Final.pdf

Atodiad 1

Holiadur Rhieni a Gwarcheidwaid: Dysgwyr trochi hwyr mewn Addysg Gymraeg Annwyl Gyfranogwr,

Fy enw i yw Elin Maher ac rwy'n astudio yn Ysgol Addysg a Chymunedau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin.

Hoffwn eich gwahodd i gymryd rhan yn fy mhrosiect ymchwil a fydd yn rhan o'm traethawd hir MA ac a fydd yn anelu at gasglu canfyddiadau a phrofiadau rhieni ar addysg drochi hwyr yn Ne Ddwyrain Cymru.

Amgaeaf gyda'r llythyr hwn holiadur byr a ddatblygwyd gennyf a fydd yn casglu profiadau rhieni disgyblion sydd naill ai'n derbyn neu wedi derbyn cymorth mewn canolfan drochi iaith / hwyrddyfodiaid. Credaf y bydd eich barn o fudd mawr i'r ymchwil.

Trwy eich cyfraniad yn yr holiadur a/neu'r cyfweliadau, gobeithiaf ganfod mwy am eich profiadau chi er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol ac i weld sut y mae rhieni yn clywed am y dull hwn o fynediad at addysg Gymraeg a pha mor hygyrch ydyw.

Cedwir pob holiadur yn gwbl gyfrinachol gan yr ymchwiliwr ac NI ryddheir unrhyw holiaduron unigol i'r cyhoedd. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud am eich profiadau mewn fforwm cyfrinachol ac anhysbys ac i wneud gwahaniaeth. Mae cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol ac, felly, cewch roi'r gorau i lenwi'r holiadur ar unrhyw adeg.

Dylai'r holiadur gymryd tua 10 munud i'w lenwi, ond nid oes cyfyngiad amser. Hefyd nid oes unrhyw atebion cywir nac anghywir. Gyda'r llythyr hwn yn ogystal â'r holiadur amgaeir ffurflen gydsynio. Deallaf fod eich amser yn brin, ond mae eich barn yn werthfawr iawn i'r gwaith.

Ar ôl i mi ddadansoddi data'r holiadur hwn yn ofalus ac yn fanwl, bydd croeso i chi gael copi o'm canfyddiadau os dymunwch. Gobeithio y bydd canlyniadau'r holiadur hwn yn gwella fy nealltwriaeth o'r maes trochi iaith i hwyrddyfodiaid yn y De-ddwyrain ac fe'u cedwir ar fas data'r Brifysgol. Bwydir canlyniadau'r ymchwil yn ôl i'm tiwtor yn y Brifysgol.

Diolch o flaen llaw am eich amser a'ch cyfraniad. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi pan fydd yn gyfleus.

Yn ddiffuant,

Elin Maher

1. Faint o'ch plant sydd wedi newid o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg?

2. Ym mha flwyddyn ysgol y cychwynnodd eich plentyn / plant mewn ysgol Gymraeg?

3. A allwch chi esbonio'r rhesymau pam eich bod chi'n dewis newid i addysg cyfrwng Cymraeg?

4. Oeddech chi'n ymwybodol bod yr opsiwn hwn ar gael?
   Oeddwn
   Oeddwn, ond nid oeddwn yn meddwl ei fod yn bosibl i ni.
   Nac oeddwn

5. Sut clywsoch chi am yr opsiwn hwn?
   Trwy'r Awdurdod Lleol
   Pan wrthodwyd fy nghais am addysg cyfrwng Saesneg
   Gan ffrind
   Gan gydweithiwr
   O wefan / llwyfan cyfryngau cymdeithasol
   Arall

6. Beth oedd eich canfyddiad o addysg Gymraeg cyn i chi ddewis y llwybr hwn?

7. A wnaethoch chi ystyried addysg Gymraeg pan oedd eich plentyn / plant yn dechrau addysg yn y blynyddoedd cynnar?
   Do
   Naddo
   Efallai
   Doeddwn i ddim yn gwybod ei fod yn opsiwn i ni

8. A welsoch chi neu a glywsoch am unrhyw wybodaeth gan yr Awdurdod Lleol yn hyrwyddo addysg drochi hwyr yn y Gymraeg ar wefan, trwy lenyddiaeth neu mewn sgwrs?
   Do
   Naddo
   Arall

9. A ydych chi wedi gweld polisi Awdurdod Lleol ar addysg drochi hwyr addysg Gymraeg?

10. Beth yw eich canfyddiad o addysg Gymraeg erbyn hyn?

11. Os bu newid yn eich canfyddiad o addysg Gymraeg, a allwch chi egluro beth fu'r newid hwnnw?

12. Pe bai plant eich ffrindiau mewn addysg cyfrwng Saesneg, a fyddech chi'n argymell addysg drochi hwyr yn y Gymraeg iddynt?

13. A fyddech chi'n argymell cychwyn eu plant mewn addysg Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar i rieni eraill yn y dyfodol?

14. Diolch am ymateb i'r cwestiynau hyn. Rwy'n gwerthfawrogi'ch cymorth gyda fy ymchwil yn fawr.

Os hoffech chi gymryd rhan mewn cyfweliad pellach, gadewch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost isod a byddaf mewn cysylltiad yn fuan.

Diolch yn fawr.

Elin Maher

2102793@student.uwtsd.ac.uk
Rhowch eich ateb
15.Cadarnhaf fy mod wedi darllen a deall y wybodaeth dyddiedig 22.11.2021 ar gyfer yr astudiaeth uchod. Rwyf wedi cael y cyfle i ystyried y wybodaeth.

Deallaf fy mod yn cymryd rhan o’m gwirfodd a bod croeso i mi dynnu’n ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm.

Deallaf y gellir defnyddio unrhyw wybodaeth a roddir gennyf mewn adroddiadau, erthyglau neu gyflwyniadau gan yr ymchwilydd.

Deallaf na fydd fy enw’n ymddangos mewn unrhyw adroddiadau, erthyglau neu gyflwyniadau.

Cytunaf i gymryd rhan yn yr astudiaeth uchod.

Atodiad 2

Holiadur y gweithlu: Dysgwyr trochi hwyr mewn Addysg Gymraeg

Annwyl Gyfranogwr,

Fy enw i yw Elin Maher ac rwy'n astudio yn Ysgol Addysg a Chymunedau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin

Hoffwn eich gwahodd i gymryd rhan yn fy mhrosiect ymchwil a fydd yn rhan o fy mhrosiect traethawd hir MA ac a fydd yn anelu at gasglu canfyddiadau a phrofiadau'r rhai sy'n addysgu, rheoli a chynllunio'n strategol ar gyfer trochi hwyr mewn addysg Gymraeg yn Ne Ddwyrain Cymru.

Amgaeaf gyda'r llythyr hwn holiadur byr a ddatblygwyd gennyf a fydd yn casglu profiadau'r gweithlu sydd yn neu wedi gweithio yn y maes hwn. Credaf y bydd eich barn o fudd mawr i'r ymchwil.

Trwy eich cyfraniad yn yr holiadur a'r cyfweliadau dilynol, petaech yn dewis hyn, gobeithiaf ganfod mwy am eich profiadau chi er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol ac i glywed am eich canfyddiadau am y dull hwn o fynediad at addysg Gymraeg a pha mor hygyrch ac effeithiol ydyw i'r dysgwr a'r hyn y mae'n ei olygu i'r gweithlu.

Cedwir pob holiadur yn gwbl gyfrinachol gan yr ymchwilwyr sy'n rhan o'r gwaith ac NI ryddheir unrhyw holiaduron unigol i'r cyhoedd. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud am eich profiadau mewn fforwm cyfrinachol a dienw a gwneud gwahaniaeth parhaus. Mae cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol ac felly cewch roi'r gorau i lenwi'r holiadur ar unrhyw adeg.

Dylai'r holiadur gymryd tua 10 munud i'w lenwi, ond nid oes cyfyngiad amser. Hefyd nid oes unrhyw atebion cywir nac anghywir. Gyda'r ffurflen hon yn ogystal â'r holiadur mae rhan i gydsynio eich bod yn hapus i gyfrannu i'r ymchwil. Deallwn fod eich amser yn brin ond mae eich barn yn werthfawr iawn i'r gwaith.

Ar ôl inni ddadansoddi'r data o'r holiadur hwn yn ofalus ac yn fanwl, bydd croeso i chi gael copi o'n canfyddiadau os dymunwch. Gobeithio y bydd canlyniadau'r holiadur hwn yn gwella fy nealltwriaeth o'r maes trochi iaith i hwyrddyfodiaid yn y De-ddwyrain ac fe'i cedwir ar fas data'r Brifysgol. Bwydir canlyniadau'r ymchwil yn ôl i'm tiwtor yn y Brifysgol.

Diolch o flaen llaw am eich amser a’ch cyfraniad. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni pan fydd yn gyfleus.

Yn ddiffuant,

Elin Maher

1. Beth yw eich rôl mewn addysg drochi hwyr Cymraeg?

Pennaeth Cynradd ysgol sydd â chanolfan drochi hwyr

Pennaeth Cynradd ysgol sydd â disgyblion trochi hwyr

Athro Arweiniol Trochi Hwyr Cynradd

Athro Trochi Hwyr Cynradd

Cynorthwyydd Addysgu Trochi Hwyr Cynradd

Rôl Uwch Gynllunio Strategol yn yr Awdurdod Lleol

Pennaeth Uwchradd ysgol sydd â chanolfan drochi hwyr

Pennaeth Uwchradd ysgol sydd â disgyblion trochi hwyr

Athro Arweiniol Trochi Hwyr Uwchradd

Cynorthwyydd Addysgu Trochi Hwyr Uwchradd

Arweinydd Trochi Hwyr y Consortiwm Addysg

2. Ym mha Awdurdod Lleol ydych chi'n gweithio?

Blaenau Gwent

Pen-y-bont ar Ogwr

Caerffili

Caerdydd

Merthyr

Sir Fynwy

Casnewydd

Rhondda Cynon Taf

Torfaen

Bro Morgannwg

3. Sut mae trochi hwyr yn digwydd yn eich sefydliad / Awdurdod Lleol / clwstwr/ consortiwm?
4. A oes gan yr Awdurdod Lleol bolisi ffurfiol ar drochi hwyr Cymraeg?

Oes

Nagoes

Dwi ddim yn gwybod

Mae gan rhai ond ddim pob un

5. A oes canolfan drochi hwyr Cymraeg yn eich sefydliad / sir / clwstwr?

Oes

Nagoes

Dwi ddim yn gwybod

6. Os sefydlwyd canolfan yn ddiweddar neu os nad oes gennych ganolfan / gweithdrefn yn eich Awdurdod Lleol ar hyn o bryd, sut y trefnwyd / y trefnir trochi hwyr? Pa effeith gafodd / y cafodd hyn ar yr ysgol? Pa heriau ydych / wnaethoch chi eu hwynebu?
7. A yw'r ffordd bresennol o ddarparu trochi hwyr yn y Gymraeg yn effeithiol i'r dysgwr eich sefydliad / sir / clwstwr?
8. A yw'r ffordd bresennol o ddarparu trochi hwyr yn y Gymraeg yn effeithiol ar gyfer y gweithiwr proffesiynol eich sefydliad / sir / clwstwr?
9. Os yw'r dull presennol yn gweithio, a oes heriau o hyd?

Oes / Nagoes

10. Os ateboch oes uchod, beth yw'r heriau hyn?
11. Os nad yw'r dull presennol o ddarparu darpariaeth hwyrddyfodiaid Cymraeg yn gweithio, beth yw'r heriau a pha newidiadau fyddech chi'n eu gwneud i'r ddarpariaeth bresennol?
12. Pa gymorth proffesiynol ydych chi wedi'i dderbyn / ydych chi'n ei dderbyn yn eich rôl yn y sector addysg trochi hwyr yn y Gymraeg? Nodwch unrhyw hyfforddiant penodol a gawsoch ar gyfer eich rôl.
13. Ydych chi'n teimlo bod gennych chi'r sgiliau a'r cymwysterau cywir i weithio yn y sector trochi hwyr yn y Gymraeg - naill ai fel rheolwr, ymarferydd neu fel cynllunydd strategol?
14. Sut mae teuluoedd yn cael gwybod am yr opsiwn o addysg drochi hwyr Cymraeg?
15. Sut mae teuluoedd yn rhan o'r broses drochi Gymraeg hwyr?
16. A yw'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo trochi hwyr addysg Gymraeg yn amlwg ar wefan neu drwy lenyddiaeth? Sut?
17. Ydych chi'n meddwl y bydd y dull hwn o ddarparu addysg drochi hwyr Cymraeg yn creu defnyddwyr iaith tymor hir - fel y mae Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050: strategaeth miliwn o Siaradwyr yn dymuno?

Diolch am ymateb i'r cwestiynau hyn. Rwy'n gwerthfawrogi'ch cymorth gyda fy ymchwil yn fawr.

Os hoffech chi gymryd rhan mewn cyfweliad pellach gadewch **eich enw a'ch cyfeiriad e-bost isod** a byddaf mewn cysylltiad yn fuan.

Diolch yn fawr.

Elin Maher

2102793@student.uwtsd.ac.uk

19.

Cadarnhaf fy mod wedi darllen a deall y wybodaeth dyddiedig 22.11.2021 ar gyfer yr astudiaeth uchod. Rwyf wedi cael y cyfle i ystyried y wybodaeth.

Deallaf fy mod yn cymryd rhan o'm gwirfodd a bod croeso i mi dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm.

Deallaf y gellir defnyddio unrhyw wybodaeth a roddir gennyf mewn adroddiadau, erthyglau neu gyflwyniadau gan y tîm ymchwil.

Deallaf na fydd fy enw'n ymddangos mewn unrhyw adroddiadau, erthyglau neu gyflwyniadau.

Cytunaf i gymryd rhan yn yr astudiaeth uchod.

Atodiad 4

Cwestiynau cyfweliad - rhieni

1. Ewch â ni nôl i'r dechrau i pan oeddech yn penderfynu ar addysg eich plant. Beth oedd y ffactorau oeddech yn eu hystyried?
2. Beth oedd sefyllfa'r teulu ar y pryd?
3. Beth oedd iaith y cartref?

4. Pryd glywsoch chi am addysg Gymraeg?
5. Beth oedd yr heriau yn ystod y broses i wneud cais?
6. Sut gellid gwella'r broses i rieni a gwarchodwyr eraill.

Cwestiynau cyfweliad - gweithlu - arweinydd canolfan trochi hwyr

1. Sut y mae disgyblion yn eich cyrraedd chi?
2. Beth yw'r model dull trochi hwyr yn eich hysgol chi?
3. Lle ddylai canolfan drochi fod? O dan gyfrifoldeb yr ysgol neu'r awdurdod lleol? Pam?
4. Beth yw'r heriau ar gyfer y disgyblion?
5. Beth yw'r heriau ar gyfer y gweithlu?